Department for Business Innovation & Skills

# Map o'r Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020

## Rhan Gyntaf yr Ymgynghoriad: Egwyddorion Cyffredin a Gwybodaeth Leol

GORFFENNAF 2013

Cyhoeddwyd: 31Gorffennaf 2013

Ymatebion erbyn: Dydd Llun, 30 Medi 2013

Ymholiadau i: AssistedAreasConsultation@bis.gsi.gov.uk

# Cynnwys

1. Rhagair gan y Gweinidog Gwladol ar faterion Menter a Busnes....4

2. Trosolwg ....5

3. Sut i ymateb a chyflwyno unrhyw ymholiadau ....9

4. Rôl Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban....11

5. Cyd-destun y Cynigion....12

6. Y Rheolau Newydd ar gyfer Cymorth Rhanbarthol....15

7. Rheolau Allweddol yr UE ar gyfer paratoi'r Map newydd....16

8. Y Broses Ymgynghori ....20

9. Ffurflen Adrodd 1 – y ffurflen ar gyfer LEPs yn Lloegr ac ALI yng Nghymru a'r Alban ....26

10. Ffurflen Adrodd 2 – y ffurflen ar gyfer ymatebwyr eraill ....35

11. Beth sy'n digwydd nesaf? ....39

Atodiad 1: Cyfansymiau'r Boblogaeth yn 2007-2013....40

Atodiad 2: Cyfrinachedd a Diogelu Data....42

Atodiad 3: Egwyddorion ymgynghori'r Llywodraeth....43

Atodiad 4: Rhestr o'r Unigolion/Cyrff yr ymgynghorwyd â hwy ....44

## 1. Rhagair gan y Gweinidog Gwladol ar faterion Menter a Busnes



Mae diweddaru'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU ar gyfer 2014-20 yn gyfle i helpu i fwydo twf cadarn a chynaliadwy, a fydd yn helpu i adfer cydbwysedd economi'r DU.


Mae statws Ardal a Gynorthwyir yn golygu bod modd darparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer busnesau bach a mentrau mewn mannau sydd o dan anfantais economaidd. Nod y cymorth hwn yw annog busnesau yn y cymunedau hyn i dyfu, arloesi a llewyrchu, sy'n gallu cael effaith bositif ar y lleoliadau hyn ac economi'r DU i gyd.

Mae'r Llywodraeth o'r farn taw arweinwyr a busnesau lleol sydd yn y sefyllfa orau i bennu cyfeiriad strategol eu hardaloedd; ac mae'r ymgynghoriad hwn yn dystiolaeth o hynny. Mae angen cymorth y Partneriaethau Menter Leolyn Lloegr a'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru a'r Alban yn arbennig er mwyn helpu i fwydo penderfyniadau anodd wrth ddod o hyd i'r ardaloedd hynny sydd yn y sefyllfa orau i wneud cyfraniad o bwys at yr economi lleol.

Mae Rhan Gyntaf yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i chi ddylanwadu ar y meini prawf a ddefnyddir i ddiffinio'r ardaloedd a ddylai gael eu cynnwys ar y Map, ac i ddarparu gwybodaeth leol am y blaenoriaethau o ran statws Ardaloedd a Gynorthwyir. Mae eich gwybodaeth leol am fusnesau a diwydiant yn hanfodol er mwyn sicrhau bod statws Ardaloedd a Gynorthwyir yn gallu gwireddu'r manteision mwyaf posibl.

Bydd yr Ail Ran, y disgwylir iddi gychwyn tua diwedd 2013, yn adeiladu ar eich ymatebion, gan ymgynghori ar Fap drafft o'r Ardaloedd a Gynorthwyir a gaiff ei fwydo gan y dystiolaeth a gawn gennych yn ystod y Rhan Gyntaf.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau taw'r DU yw'r lle gorau yn Ewrop i gychwyn, ariannu ac ehangu busnes. Bydd eich ymatebion yn helpu i lunio'r Map newydd o Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU, a fydd yn helpu i ddatgloi'r potensial am dwf yn eich rhanbarthau. Rydyn ni am i chi adnabod, cynnal ac yn y pendraw, defnyddio'r cyfleoedd economaidd yn eich ardal i wireddu twf cadarn a chynaliadwy lle mae'r angen mwyaf amdano.



Y Gwir Anrhydeddus Michael Fallon AS

## 2. Trosolwg

1. Mae Llywodraeth y DU yn adolygu'r Gorchymyn Ardaloedd a Gynorthwyir a ddaeth i rym yn 2007. Mae BIS yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn hyn o beth. Mae hyn mewn ymateb i'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol (RAG) a gyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ar 20 Mehefin 2013.

2. Y RAG sy'n pennu'r rheolau o ran sut, pryd, ble ar i bwy y gellir rhoi cymorth rhanbarthol (sy'n fath o gymorth gwladwriaethol). Gall Aelod-wladwriaethau'r UE gynnig cymorth rhanbarthol i ymgymeriadau, sef busnesau fel rheol, er mwyn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy mewn rhanbarthau dethol sydd o dan anfantais economaidd. Gelwir y rhain yn Ardaloedd a Gynorthwyir (AA). Er bod gan Aelod-wladwriaethau'r UE rywfaint o hyblygrwydd wrth ddewis pa ardaloedd a ddaw'n Ardaloedd a Gynorthwyir, rhaid i unrhyw ddynodiadau fod yn gyson â'r RAG[1] [2].

3. Cyfeirir at y RAG yn y ddogfen hon, ond er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, rydym yn awgrymu bod yr ymatebwyr yn ymgyfarwyddo â'r testun gwreiddiol a gyhoeddodd y Comisiwn hefyd, trwy fynd i: http://ec.europa.eu/competition/state_aid/regional_aid/regional_aid.html.

4. Ar y cyfan, rhoddir cymorth rhanbarthol fel canran o gostau cymwys buddsoddiad cyfalaf, neu'n llai cyffredin, i dalu costau cyflogau'r ymgymeriadau, sef busnesau fel rheol. Diffinnir y costau cymwys ym mharagraff 20 o'r RAG, a cheir manylion rhaglenni allweddol y Llywodraeth sy'n darparu cymorth rhanbarthol, fel Cronfa Twf Rhanbarthol (RGF)[3] Lloegr, ym mharagraff 46. Nid yw statws Ardal a Gynorthwyir yn gwarantu cyllid ac nid yw'n effeithio ar swm y cronfeydd Ewropeaidd y mae'r rhanbarthau'n eu cael o gyllidebau Cronfeydd Strwythurol yr UE. Yr awdurdodau domestig sy'n cyfeirio unrhyw gymorth rhanbarthol a roddir yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir. Er y gellir defnyddio cymorth rhanbarthol a chronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar y cyd i gynnal rhai projectau, mae'r naill a'r llall yn cyfrif fel cymorth cyhoeddus at ddibenion Cymorth y Wladwriaeth.

5. Mae'r ddogfen hon yn gofyn am safbwyntiau ar ddynodiad yr Ardaloedd a Gynorthwyir nesaf ym Mhrydain Fawr. Bydd trefniadau ar wahân yn berthnasol i Ogledd Iwerddon[4].

---

[1] Yn seiliedig ar GDP isel y pen, mae'r RAG yn dynodi 'Cernyw' a 'Gorllewin Cymru a'r Cymoedd' fel Ardaloedd a Gynorthwyir yn uniongyrchol – gweler Adran 7 isod. Yn seiliedig ar boblogaeth wasgarog, mae'r RAG yn dynodi Caithness a Sutherland a Ross a Cromarty; Lochaber, Skye a Lochalsh, Arran a Cumbrae ac Argyll a Bute; ac Eilean Siar (Ynysoedd y Gorllewin) yn Ardaloedd a Gynorthwyir yn uniongyrchol hefyd – gweler Adran 7 isod.

[2] Mae'r Comisiwn yn mynnu bod yn rhaid i Ardaloedd a Gynorthwyir gydymffurfio â meini prawf penodol o ran cymhwyster, gweler paragraffau 52 i 67 isod. Mae angen i Lywodraeth y DU gyflwyno cais penodol er mwyn rhoi statws Ardal a Gynorthwyir mewn rhai rhannau o'r DU, sy'n fwy cyfoethog ar y cyfan. Ceir rhestr o'r mannau hyn yn Nhabl 9.1.

[3] Ymhlith y cynlluniau eraill mae'r Lwfans Adnewyddu Safleoedd Busnes, cynllun Cymorth Rhanbarthol Dethol yr Alban, a Chyllid Busnes Ad-daladwy Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Ceir manylion pellach ym mharagraff 46.

[4] Cyhoeddwyd hyn ar 14 Mehefin 2013 yng nghytundeb economaidd Gogledd Iwerddon: Building a Prosperous and United Community https://www.gov.uk/government/publications/building-a-prosperous-and-united-community

6. Disgwylir i'r Ardaloedd a Gynorthwyir newydd yma fod mewn grym o 1 Gorffennaf 2014 tan 31 Rhagfyr 2020, ochr yn ochr â RAG 2014-2020. Mae'r dyddiadau hyn yr un fath ar gyfer yr holl Aelod-wladwriaethau.

7. Cyflawnir yr ymgynghoriad ar yr Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020 mewn dwy ran:

- Mae'r rhan gyntaf yma'n cynnig egwyddorion cyffredin ar gyfer llunio'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020. Nodir y rhain ym mharagraffau 109-116 ac eto yn 157-164. Mae Cwestiwn D01 ar y ffurflenni ymateb yn ymwneud â'r egwyddorion cyffredin yma. Mae'r ffurflenni hyn ar gael trwy fynd i https://www.gov.uk/government/consultations/assisted-areas-map-2014-to-2020, www.scotland.gov.uk/Topics/Government/State-Aid a http://wales.gov.uk/consultations/;jsessionid=2A173646359D86BA3CF12CC0727ED146?lang=en.

- Mae Rhan Gyntaf yr ymgynghoriad yn casglu gwybodaeth leol am ardaloedd o gyfleoedd ac angen economaidd, a hynny'n bennaf gan y Partneriaethau Menter Leol (LEPs) yn Lloegr, a'r Awdurdodau Lleol (ALl) yng Nghymru a'r Alban. Mae hyn yn cynnwys gofyn i'r LEPs yn Lloegr a'r ALl yng Nghymru a'r Alban sy'n dod o fewn cwmpas Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013, awgrymu dosbarthiad ar gyfer cwmpasiad 2014-2020 gydag i) cyfanswm poblogaeth uchaf sy'n cyfateb ag 80% o'r hyn a welwyd ar Fap 2007-2013, a ii) hyd at 100% o'r hyn a roddwyd yn 2007-2013 er mwyn adnabod rhai blaenoriaethau lleol o'r ail radd yn y gwahaniaeth. Gall yr LEPS a'r ALl hyn nodi wardiau pellach lle mae cyfleoedd economaidd, a allai gynnal datblygiad lleoliadau sydd o dan anfantais economaidd pe baent yn cael statws AA. Yn yr un modd, gall LEPs yn Lloegr ac ALl yng Nghymru a'r Alban nad oeddent yn AA yn 2007-2013 awgrymu wardiau lle mae cyfleoedd economaidd yn eu hardaloedd o angen economaidd i fod yn ddarpar Ardaloedd a Gynorthwyir.

- Bydd Gweinidogion y DU yn cymeradwyo Map Prydain Fawr cyn iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ail ran yr ymgynghoriad. Bydd Ail Ran yr Ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar y Map drafft o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020, a gaiff ei fwydo gan yr ymatebion i'r Rhan Gyntaf o'r ymgynghoriad.

8. Mae'r rhan gyntaf yma o'r ymgynghoriad yn fwyaf perthnasol i Bartneriaethau Cyflogaeth Lleol (LEPs) yn Lloegr ac i Awdurdodau Lleol (ALl) yng Nghymru a'r Alban. Mae BIS yn gofyn i'r rhain gydlynu'r ymatebion o ran gwybodaeth leol a fydd yn helpu'r Llywodraeth i ymgorffori blaenoriaethau lleol i'r broses o benderfynu ar y Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020. Yn Lloegr, gall yr LEPs helpu i adnabod ac ymateb i flaenoriaethau economaidd ar draws ffiniau gweinyddol ac felly hefyd wrth ddatblygu cynlluniau economaidd strategol eu LEPs. Mae hyn yn fanteisiol o ystyried y dylai statws Ardal a Gynorthwyir ymateb i ddaearyddiaeth economaidd yn hytrach na ffiniau gwleidyddol lle bynnag y bo modd o fewn gweithrediad y RAG. Yn Lloegr, disgwylir i'r LEPs gydweithio'n agos â'r ALl yn yr ardal wrth lunio eu hymateb.

9. Nid oes LEPs yng Nghymru a'r Alban, felly gofynnir i'r ALI gyflawni rôl gyfatebol yno. Gofynnir i'r ALI weithio gyda'r Asiantaethau Cyflogaeth yn yr Alban hefyd. Mae'n bosibl y bydd nifer o garfanau eraill, fel busnesau, grwpiau busnes, sefydliadau masnach a phroffesiynol, am fwydo i mewn i'r ymatebion hyn a gaiff eu cydlynu'n lleol, ac mae croeso iddynt ymateb i BIS yn uniongyrchol hefyd. Lle bo modd, dylent anfon copi o'r ymateb i Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth yr Alban.

10. O gymryd y rôl y gofynnwyd i'r LEPs yn Lloegr a'r ALI yng Nghymru a'r Alban ei chyflawni yn nhermau rhannu gwybodaeth leol â'r Llywodraeth, mae ffurflen benodol (Ffurflen 1) yn cael ei rhyddhau i gasglu safbwyntiau'r sefydliadau hyn. Mae unigolion a chyrff eraill yn cael eu hannog i fwydo gwybodaeth allweddol am ddyfodol yr Ardaloedd a Gynorthwyir yn eu milltir sgwâr i'r LEPs lleol yn Lloegr neu'r ALI yng Nghymru neu'r Alban. Fodd bynnag, mae Ffurflen 2, sef ffurflen yr 'ymatebwyr eraill' yn cynnig y dewis iddynt gyflwyno ymatebion yn uniongyrchol i'r Llywodraeth.

11. Bydd yna groeso arbennig i ymatebion sy'n cymryd safbwyntiau budd-ddeiliaid lleol allweddol ac sy'n cofnodi'r cyfranogwyr. Mae'n bosibl na fydd modd cael ymateb lleol hollol gyson neu gytûn bob tro, ac felly mae yna le ar y ffurflen ymateb i gofnodi pryderon lleiafrifoedd o bwys y dylai'r Llywodraeth fod yn ymwybodol ohonynt.

12. Wth anelu at sicrhau taeniad effeithiol o ran yr Ardaloedd a Gynorthwyir, a rhoi ystyriaeth gadarn i'w dosbarthiad o ran angen a chyfleoedd economaidd, mae'r Llywodraeth yn annog yr LEPs a'r ALI i weithio mewn grwpiau er mwyn adnabod unrhyw ddarpar Ardaloedd a Gynorthwyir sy'n croesi ffiniau ALI neu LEPs. Dylai darpar Ardaloedd a Gynorthwyir sy'n croesi ffiniau Cymru/Lloegr a'r Alban/Lloegr gael eu hystyried gan gyrff yn yr ardaloedd hyn.

13. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth leol a gynigir gan yr ymatebwyr yn fasnachol sensitif. Mae'r ddwy ffurflen ymateb yn cynnig y dewis i'r ymatebwyr ddatgan a ydynt yn teimlo y dylai'r holl wybodaeth, neu ran ohoni, gael ei thrin yn gyfrinachol. Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu cyhoeddi ar y wefan .GOV.

14. Er bod BIS yn ymgynghori ar yr egwyddorion arfaethedig ar gyfer llunio'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020 (a restrir yn Adrannau 9 a 10), dylid defnyddio'r egwyddorion hyn hefyd i fwydo'r ymatebion i adrannau gwybodaeth leol y Rhan Gyntaf o'r ymgynghoriad. Bydd Ail Ran yr ymgynghoriad (y Map drafft) yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr gyflwyno sylwadau ar y Map drafft, gan gymryd unrhyw newidiadau materol a wnaed i'r egwyddorion cyffredin yn dilyn rhan gyntaf yr ymgynghoriad i ystyriaeth.

15. Bydd rhan gyntaf yr ymgynghoriad yn cau ar 30 Medi 2013. Disgwylir i ail ran yr ymgynghoriad, a fydd yn gofyn am safbwyntiau ar y Map drafft o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020, gychwyn ddiwedd 2013 a daw i ben yng ngaeaf 2013/14.

16. Wrth baratoi'r Map drafft ar gyfer 2014-2020, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cymryd y canlynol i ystyriaeth:

- Yr ymatebion i Ran Gyntaf yr ymgynghoriad;

- Setiau data economaidd cenedlaethol;

- Gwybodaeth fasnachol ac economaidd;

- Strategaeth a pholisïau’r Llywodraeth e.e. Polisi Diwyiannol y DU a lleoliad a natur y Parthau Menter; a

- Safbwyntiau’r timau cenedlaethol allweddol sy’n gyfrifol am gymorth rhanbarthol.

- Caiff cynlluniau economaidd rhanbarthol eu hystyried yng Nghymru a’r Alban hefyd.

17. Bydd y setiau hyn o dystiolaeth yn galluogi’r Llywodraeth i bwyso a mesur cyfuniadau perthynol o gyfleoedd ac anghenion economaidd sy’n seiliedig ar leoliadau penodol yn erbyn ei gilydd. Caiff yr Ardaloedd a Gynorthwyir sy’n codi yn sgil hyn eu hadeiladu ar sail wardiau Cyfrifiad 2011, ac ar y cyfan, bydd ganddynt boblogaeth gyfagos ag o leiaf 100,000 o bobl, er y bydd terfynau isaf eraill o ran y boblogaeth yn berthnasol mewn nifer fechan o leoliadau. Mae paragraff 168 o’r RAG yn nodi’r manylion yn hyn o beth.

18. Rhwng y ddwy ran o’r ymgynghoriad, pan fo BIS, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wrthi’n llunio’r Map drafft ar gyfer 2014-2020, caiff cymorthfeydd eu trefnu gyda’r LEPs yn Lloegr sydd wedi ymateb i’r rhan gyntaf o'r ymgynghoriad. Cynhelir y rhain yn swyddfeydd y llywodraeth, a hynny’n bennaf er mwyn archwilio’r wybodaeth leol a’r blaenoriaethau a fynegwyd yn ystod Rhan 1. Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn darparu cymorthfeydd cyfatebol ar gyfer yr ALl.

19. Ar ôl ail ran yr ymgynghoriad, bydd BIS yn cywreinio’r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir, gan weithio Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, cyn i’r Map gael ei gymeradwyo eto gan Weinidogion Llywodraeth y DU. Wedyn bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno Map y DU i gael cymeradwyaeth y Comisiwn. Er bod rhywfaint o hyblygrwydd gan yr Aelod-wladwriaethau i ddynodi pa ardaloedd a ddaw’n Ardaloedd a Gymeradwyir, rhaid i’r dynodiadau hynny gydymffurfio â’r RAG.

Ffeindio’ch ffordd trwy’r ddogfen hon – y penodau allweddol:

- Mae Adran 4 yn disgrifio rôl Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban

- Mae Adrannau 5 i 7 yn disgrifio’r cyd-destun polisi ar gyfer datblygu’r Map AA ar gyfer 2014-2020

- Mae Adran 8 yn darparu gwybodaeth fwy penodol am y broses ymgynghori

- Mae Adran 9 yn disgrifio pa wybodaeth y dylai LEP yn Lloegr ac ALl yng Nghymru a’r Alban ei chyflwyno

- Mae Adran 10 yn disgrifio pa wybodaeth y dylai ymatebwyr eraill ei chyflwyno.

## 3. Sut i ymateb a chyflwyno unrhyw ymholiadau

20. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 30 Medi 2013. Tan hynny, mae'r ffurflenni ymateb ar gael yn electronig ar y dudalen ymgynghori: https://www.gov.uk/government/consultations/assisted-areas-map-2014-to-2020.

21. Dylid cyflwyno'r ffurflenni ymateb ac unrhyw ymholiadau trwy e-bost neu lythyr i'r:

    Tîm Ardaloedd a Gynorthwyir
    Y Gyfarwyddiaeth Twf Lleol
    4ydd Llawr, Adain 2
    Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
    1 Victoria Street
    Llundain
    SW1H 0EH

    E-bost: AssistedAreasConsultation@bis.gsi.gov.uk

22. Os yw'r ymateb neu'r ymholiad yn ymwneud ag ardal yn yr Alban, copïwch y neges i'r:

    Tîm Cronfeydd y Dyfodol a Chymorth Rhanbarthol
    Yr Adran Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
    Llywodraeth yr Alban
    Atlantic Quay
    150 Broomielaw
    Glasgow
    G2 8LU

    E-bost: AssistedAreasConsultation@Scotland.gsi.gov.uk

23. Os yw'r ymateb neu'r ymholiad yn ymwneud ag ardal yng Nghymru, copïwch y neges i'r:

    Blwch Postio Ardaloedd a Gynorthwyir, Llawr 1af, Adain y De,
    Y Tîm Strategaeth
    Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
    Canolfan QED
    Y Brif Rodfa
    Ystâd Ddiwydiannol Trefforest
    Trefforest
    Pontypridd
    Rhondda Cynon Taf
    CF37 5YR

    E-bost: AssistedAreasConsultation@Wales.gsi.gov.uk

24. Agorodd ran gyntaf yr ymgynghoriad ar 31Gorffennaf 2013 a'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymatebion yw 30 Medi 2013. Mae'r dyddiadau hyn yn ymateb i gyhoeddiad

y RAG gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 20 Mehefin 2013. Bydd hyn yn darparu amser digonol i ddatblygu a chymeradwyo'r ymatebion dros gyfnod yr haf, ac yn golygu y gall y Llywodraeth fwrw ymlaen â'r gwaith er mwyn cyflwyno'r Map arfaethedig o Ardaloedd a Gynorthwyir i'r Comisiwn yn brydlon ddechrau 2014.

25. Ceir rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion yr ymgynghorwyd â nhw yn Atodiad 4. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau am gyrff eraill a fyddai'n dymuno cymryd rhan yn y broses ymgynghori.

26. Ceir cyfeiriad at egwyddorion ymgynghori y Llywodraeth yn Atodiad 3. Os nad ydych chi'n teimlo y cydymffurfiwyd â'r egwyddorion hyn, mae manylion am sut i ymateb yn Atodiad 3 hefyd.

27. Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, mae ymgynghoriadau BIS yn ddigidol bob tro, ond os oes angen, gallwch gael copïau argraffedig o'r ddogfen ymgynghori gan:

    Llinell Archebu Cyhoeddiadau BIS
    ADMAIL 528
    Llundain SW1W 8YT
    Ffôn: 0845-015 0010
    Ffacs: 0845-015 0020
    Minicom: 0845-015 0030
    https://www.gov.uk/government/publications?departments%5B%5D=department-for-business-innovation-skills

28. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg trwy fynd i https://www.gov.uk/government/consultations/assisted-areas-map-2014-to-2020 a http://wales.gov.uk/consultations/;jsessionid=2A173646359D86BA3CF12CC0727ED146?lang=en.

29. Mae'r ddogfen ar gael yn Braille, mewn ieithoedd eraill ac ar gasét sain trwy wneud cais i Linell Archebu Cyhoeddiadau BIS.

## 4. Rôl Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban

30. Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) sy’n cydlynu’r ymarfer ymgynghori hwn ar ran Llywodraeth y DU ac ar ôl cael cymeradwyaeth Gweinidogion y DU, BIS fydd yn gyfrifol am gyflwyno’r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU ar gyfer 2014-2020 i’r Comisiwn.

31. Dylai’r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ganiatáu’r hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus gynnal buddsoddiad mewn ardaloedd sydd o dan anfantais ar draws y DU. Mae BIS felly’n lansio un ymgynghoriad ar draws Prydain Fawr, gyda’r nod o sicrhau bod y dulliau o adnabod Ardaloedd a Gynorthwyir yn gyson ar draws Prydain Fawr a bod y blaenoriaethau economaidd lleol yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

32. Felly mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ran bwysig i’w chwarae wrth gasglu gwybodaeth leol a chydlynu datblygiad y Mapiau drafft ar gyfer Cymru a’r Alban i’w cyflwyno ar gyfer Ail Ran yr ymgynghoriad. Bydd ganddynt ran allweddol i’w chwarae hefyd wrth gywreinio’r Mapiau ar gyfer Cymru a’r Alban yng ngoleuni’r safbwyntiau sy’n dod i law yn ystod Ail Ran yr ymgynghoriad.

33. Yn ogystal â’r wybodaeth sydd ar gael ar https://www.gov.uk/government/consultations/assisted-areas-map-2014-to-2020, gellir cael rhagor o wybodaeth am ddatblygiad Map yr Alban trwy fynd i www.scotland.gov.uk/Topics/Government/State-Aid a gellir cael rhagor o wybodaeth am ddatblygiad Map Cymru trwy fynd i http://wales.gov.uk/consultations/;jsessionid=2A173646359D86BA3CF12CC0727ED146?lang=en.

34. Felly dylai ymatebwyr yng Nghymru a’r Alban anfon copi o unrhyw ymatebion neu ymholiadau y maent yn eu cyflwyno i BIS i Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth yr Alban hefyd. Mae’r manylion cyswllt yn Adran 3 uchod.

35. Mae’r broses hon yn pwysleisio bod Llywodraeth y DU yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wrth ddatblygu’r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020, ac i fanteisio ar eu harbenigedd wrth ddeall y blaenoriaethau economaidd yng Nghymru a Lloegr.

## 5. Cyd-destun y Cynigion

36. Mae'r rheolau o ran cymorth rhanbarthol yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ddarparu cymorth ariannol ar gyfer ymgymeriadau, sef busnesau fel rheol, sy'n buddsoddi mewn ardaloedd dan anfantais o dan y rheolau o ran cymorth gwladwriaethol. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcan yr UE i sicrhau cydlyniant rhanbarthol, trwy sicrhau cyfleoedd economaidd sy'n ddaearyddol gynhwysol ar draws yr UE, a lleihau'r anghysonderau rhwng y rhanbarthau mwy breintiedig a llai breintiedig yn yr UE.

37. Mae Strategaeth Hybu Twf [5] Llywodraeth y DU yn rhannu llawer o'r un amcanion, yn enwedig o ran adfer cydbwysedd yr economi rhwng y gwahanol sectorau a rhanbarthau, a lleihau dibyniaeth rhai o'r rhanbarthau ar y sector cyhoeddus.

Y Cyd-destun Ewropeaidd: Moderneiddio Cymorth Gwladwriaethol.

38. Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd y RAG ar gyfer 2014-2020 ar 20 Mehefin 2013. Rhaid llunio'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU ar gyfer 2014-2020 yn unol â'r RAG.

39. Mae'r RAG yn rhan o becyn ehangach o fframweithiau a chyfreithiau o ran Cymorth Gwladwriaethol. Mae'r holl Fframweithiau Cymorth Gwladwriaethol hyn yn cael eu hadolygu trwy'r rhaglen 'Moderneiddio Cymorth Gwladwriaethol' a lansiwyd ym mis Mai 2012. Mae trefn effeithiol o ran cymorth gwladwriaethol yn helpu i greu cydraddoldeb ar gyfer busnesau ar draws yr UE, ac yn sicrhau nad yw'r cymorth gwladwriaethol a roddir gan lywodraethau cenedlaethol yn ystumio'r gystadleuaeth ym marchnad sengl yr UE yn ormodol. Nod y rhaglen moderneiddio yw hyrwyddo defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau cyhoeddus prin, gan sicrhau bod y cymorth yn cael ei gynllunio a'i dargedu'n dda. Dylai'r rhaglen ar gyfer moderneiddio alinio'r arferion a'r rheolau ar draws y gwahanol fframweithiau cymorth, a sicrhau bod y cymorth a roddir yn amlwg yn cymell busnes, gan ddenu buddsoddiad preifat ychwanegol er mwyn gwireddu twf a chreu swyddi cynaliadwy.

Strategaeth Hybu Twf y DU a'r Cynlluniau Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Cymru a'r Alban

40. Am taw nod cymorth rhanbarthol yw 'hyrwyddo datblygiad economaidd rhai ardaloedd penodol sydd o dan anfantais yn yr Undeb Ewropeaidd', mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu i fynd i'r afael ag anghenion lleoliadau lle mae diffygion penodol yn y farchnad ac wrth wireddu twf cynaliadwy.

41. Cyhoeddodd y DU ei 'Gynllun Hybu Twf' yn 2011. Roedd y cynllun yn cynnwys amcan i wireddu twf cynaliadwy a chytbwys â dosbarthiad mwy cyfartal ar draws y wlad a'r gwahanol sectorau. Mae'r Llywodraeth am sicrhau bod modd darparu cymorth rhanbarthol yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf amdano, a hynny er mwyn helpu i

[5] www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/184602/2011budget_growth.pdf

adfer cydbwysedd ein heconomi, a mynd i'r afael ag angen economaidd yn lleol, gan helpu i gynyddu cynhyrchiant a chodi cyfraddau cyflogaeth. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda ag agenda ehangach y Llywodraeth i hybu twf, sy'n darparu mecanwaith pwysig i'r llywodraeth adfer cydbwysedd mewn tri gwahanol faes: yn ddaearyddol, rhwng y sectorau a thrwy leihau dibyniaeth rhai lleoedd ar y sector cyhoeddus trwy ddenu buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat.

42. Yn ogystal â strategaeth y DU, mae gan y Gweinyddiaethau Datganoledig – yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon – gynlluniau datblygu rhanbarthol hefyd.

43. Mae Strategaeth Ddiwydiannol y Llywodraeth yn archwilio sut y gall y llywodraeth weithio gyda'r sector preifat i hybu twf economaidd. Mae'n nodi pa sectorau diwydiannol a allai wneud y cyfraniad mwyaf at dwf economaidd a swyddi yn y DU yn y dyfodol, wedyn mae'n ystyried beth y gall y Llywodraeth ei wneud er mwyn ychwanegu'r gwerth mwyaf. Mae'r sectorau hyn yn cynnwys rhannau o weithgynhyrchu uwch, gan gynnwys y diwydiant aerofod, cerbydau modur a'r gwyddorau bywyd. Ymgorfforir y sectorau galluogi, fel y sectorau ynni ac adeiladu yn hyn o beth hefyd. Ystyrir bod gweithgynhyrchu'n arbennig o berthnasol o ran cymorth rhanbarthol, o ystyried ei fod, o ran ei natur, yn ddwys o ran cyfalaf a bod ganddo gadwyni cyflenwi dwfn, sydd weithiau'n rhai lleol.

<u>Defnydd y DU o Fframweithiau Cymorth Gwladwriaethol</u>

44. Mae'r DU yn gwneud defnydd helaeth o fframweithiau cymorth gwladwriaethol wrth hybu swyddi a thwf. Nid yw llawer o'r cynlluniau y mae'r llywodraeth yn eu cefnogi'n dibynnu ar y RAG am eu bod yn defnyddio'r fframweithiau cymorth 'llorweddol' eraill, sy'n mynd i'r afael â'r diffygion mewn marchnadoedd penodol sy'n gallu digwydd ar draws y DU, fel cymorth ar gyfer gwaith Ymchwil a Datblygu, cyfalaf risg, buddsoddiadau mewn BBaCh, hyfforddiant neu amddiffyn yr amgylchedd.

45. Mae cymorth rhanbarthol yn unigryw ym maes cymorth y wladwriaeth am ei fod yn canolbwyntio ar leoliad arbennig – hynny yw, mae'r meini prawf ar gyfer dyfarnu unrhyw gyllid yn cynnwys y lleoliad daearyddol – ac ar fod yn gallu cefnogi buddsoddiad cyfalaf mewn gweithgareddau newydd. Er y gellir defnyddio cymorth BBaCh a chyfalaf risg i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf gan fentrau bach a chanolig, dim ond y cymorth rhanbarthol y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo buddsoddiadau o'r fath gan gwmnïau mawr y tu hwnt i Ymchwil a Datblygiad ac Arloesi, a phrojectau amgylcheddol neu ynni. Trwy sicrhau cyflogaeth uniongyrchol a'r gadwyn gyflenwi, a thrwy'r sgil-effeithiau fel trosglwyddo arloesedd a sgiliau, gall cwmnïau mawrion ddarparu manteision economaidd sylweddol ar gyfer economïau lleol.

46. Dyma'r prif esiamplau o gynlluniau sy'n cynnig cymorth rhanbarthol ar draws Prydain Fawr ar sail rheolau 2007-2013:

- Y Gronfa Twf Rhanbarthol – mae'r cynllun hwn ar waith yn Lloegr, a'i nod yw denu buddsoddiad o'r sector preifat er mwyn helpu i adfer cydbwysedd yr economi fesul sector, trwy gynyddu lefelau cyflogaeth a chynhyrchiant, a hynny'n arbennig mewn ardaloedd lle mae cyfran is na'r cyfartaledd o gyflogaeth yn y sector preifat. Yn ogystal â chymorth rhanbarthol, mae'r Gronfa Twf Rhanbarthol yn defnyddio nifer o fframweithiau cymorth gwladwriaethol, fel y rhai ar gyfer

Ymchwil a Datblygu a hyfforddiant.

- BPRA, sef y Lwfans Adnewyddu Safleoedd Busnes, a ganiateir gan CThEM er mwyn adnewyddu safleoedd busnes adfeiliedig a gwael a'u defnyddio o'r newydd, a hynny'n arbennig lle bo'r tenantiaid yn debygol o fod yn BBaCh. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ymestyn y tu hwnt i'w oes gychwynnol o 5 mlynedd, a bydd yn rhedeg tan Ebrill 2017.

- Y cynllun Cymorth Rhanbarthol Dethol - hwn yw'r prif gynllun o dan y RAG yn yr Alban, ac fe'i gweithredir gan Highlands and Islands Enterprise a Scottish Enterprise. Gellir dyfarnu grantiau o dan y cynllun hwn ar y cyd â chymorth o dan fframweithiau cymorth eraill, er enghraifft Ymchwil a Datblygu neu sgiliau a hyfforddiant.

- Cyllid Buses Ad-daladwy Llywodraeth Cymru - mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth ariannol disgresiynol ar gyfer busnesau cymwys yn y sectorau busnes allweddol, ac ar gyfer rhai projectau sy'n strategol bwysig y tu hwnt i'r sectorau hyn. Mae hyn yn helpu i ariannu buddsoddiadau cyfalaf, swyddi, gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi a rhai projectau refeniw cymwys ar draws Cymru. Ymhlith yr amcanion mae creu/diogelu/cynnal swyddi mwy medrus; hybu gwaith ymchwil arloesol; cynyddu mentergarwch a datblygu BBaCh.

- Mae'r Lwfansau Cyfalaf Uwch a ganiateir yn rhai o'r Ardaloedd Menter yn dibynnu ar statws Ardaloedd a Gynorthwyir.

<u>Gwahaniaethu rhwng yr Ardaloedd a Gynorthwyir a'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd</u>

47. Nid yw statws Ardal a Gynorthwyir ar ei ben ei hun yn gwarantu cyllid. Yn hytrach mae'n darparu cymhwyster ardal-eang i Lywodraethau cenedlaethol ddarparu cymorth rhanbarthol. Dylid gofalu i wahaniaethu rhwng cymorth rhanbarthol a chyllid Ewropeaidd, fel Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI). Er y gall yr Ardaloedd a Gynorthwyir ac ESI rannu rhai o'r un uchelgeisiau bras o ran datblygu economaidd, mae'n bwysig nodi taw'r UE sy'n dyrannu'r Cronfeydd ESI i Lywodraethau cenedlaethol. Rhaid i'r projectau a gynorthwyir gan y Cronfeydd ESI ddilyn rheolau'r UE, gan gynnwys y rhai ar gymorth y wladwriaeth, fel y canllawiau ar gymorth rhanbarthol a'r eithriad bloc cyffredinol.

48. Nod y Cronfeydd ESI yw gwireddu twf cynaliadwy ar draws Ewrop. Yn y DU maent yn cwmpasu pedair cronfa: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Caiff y cronfeydd eu halinio o dan Fframwaith Strategol Cyffredin ar gyfer 2014-2020, gyda ffocws penodol ar arloesi, gan gynnwys Ymchwil a Datblygu, gallu BBaCh i gystadlu, sgiliau, carbon isel a chyflogaeth. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddyraniadau is-genedlaethol ar gyfer ERDF ac ESF ym mis Mehefin 2013. Gellir cael rhagor o wybodaeth trwy fynd i: [www.gov.uk/government/speeches/european-regional-development-fund-and-european-social-fund-allocations-2014-to-2020](http://www.gov.uk/government/speeches/european-regional-development-fund-and-european-social-fund-allocations-2014-to-2020)

## 6. Y Rheolau Newydd ar gyfer Cymorth Rhanbarthol

Crynodeb o'r newidiadau perthnasol

49. Yn unol â'i amcanion i gyfyngu cymorth i'r achosion hynny lle mae ei angen er mwyn sicrhau elw o'r buddsoddiad, mae'r Comisiwn wedi gwneud nifer o newidiadau i'r mathau o gymorth a ganiateir o dan y RAG. Mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â'r canlynol:

- Cymorth ar gyfer mentrau mawr, ac eithrio'r rhai mewn ardaloedd "a" [6]: mae'r cyfyngiadau yn dynnach nag yr oeddent yn y gorffennol, ac o Orffennaf 2014 ymlaen dim ond ar gyfer buddsoddiadau sy'n creu "gweithgareddau economaidd newydd" (yn ôl diffiniad paragraff 20 o'r RAG) yn y rhanbarthau o dan sylw y caniateir hyn ac, yn sgil hysbysiad unigol i'r Comisiwn, buddsoddiadau ar gyfer arallgyfeirio i gynnyrch newydd neu brosesau arloesol

- Mae dwysedd y cymorth wedi cael ei leihau yn rhan fwyaf o'r ardaloedd. 10% fydd dwyster y cymorth i'r rhai sy'n destun yr ymgynghoriad hwn, gyda lefelau uwch ar gyfer cwmnïau bach a chanolig.

- Ni chaniateir cymorth lle bo'r un cwmni'n cau gweithgaredd tebyg mewn rhan arall o Ardal Economaidd Ewrop.

- Caniateir dyfarnu Cymorth Rhanbarthol ar gyfer gweithgareddau Adeiladu Llongau erbyn hyn, ond ni ellir ei ddyfarnu i'r Sector Ynni mwyach, am y disgwylir i Gymorth Ynni ac Amgylcheddol gael ei ddefnyddio yn lle.

50. Ceir manylion pellach am y newidiadau deddfwriaethol hyn yn y RAG: http://ec.europa.eu/competition/state_aid/regional_aid/regional_aid.html

51. Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn ymestyn y mapiau a'r rheolau cyfredol am chwe mis er mwyn sicrhau bod modd rhoi ystyriaeth briodol i lunio mapiau newydd yn yr Aelod-wladwriaethau; ac er mwyn caniatáu ar gyfer cwblhau gweddill y rhaglen i Foderneiddio Cymorth Gwladwriaethol. Mae hyn yn golygu y disgwylir i'r rheolau newydd a'r Map newydd o Ardaloedd a Gynorthwyir ddod i rym ar 1 Gorffennaf 2014.

---

[6] Gweler Paragraffau 55 - 58 isod.

## 7. Rheolau Allweddol yr UE ar gyfer paratoi'r Map newydd

52. Mae'r RAG yn gofyn bod pob un o'r Aelod-wladwriaethau'n cynhyrchu map ar gyfer cymorth rhanbarthol. Rhaid i'r map ddatgan y rhestr o ardaloedd y mae'r Aelod-wladwriaethau'n eu dynodi i gael statws Ardaloedd a Gynorthwyir, a hynny'n unol â'r amodau a bennir yn y RAG, er mwyn i'r Comisiwn ei chymeradwyo wedyn. Caiff y Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020 ei lunio'n unol â RAG 2014-2020 felly. Cyfres o feini prawf a chamau sy'n pennu'r opsiynau ar gyfer llunio'r Map, a cheir disgrifiad o'r rhain yn yr adrannau isod.

Cwmpas yr AA yn y DU

53. Yn 2007-2013, roedd canllawiau'r Comisiwn yn caniatáu i hyd at 23.9% o boblogaeth y DU gael eu dynodi'n Ardaloedd a Gynorthwyir. Mae'r RAG ar gyfer 2014-2020 yn pennu cwmpas poblogaeth y DU ar lefel o 27.05% at ddibenion Map 2014-2020. Mae Llywodraeth y DU yn dynodi cwmpas o hyd at 22.79% o boblogaeth y DU, a hynny'n amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn pennu mathau eraill o gwmpasu ymlaen llaw. Ceir rhagor o fanylion o ran sut y pennir y cwmpas y DU yn Nhabl 7.1 isod.

54. Cyn llunio'r Map drafft ar gyfer 2014-2020, caiff poblogaeth Prydain Fawr ei rannu'n ddyraniadau dangosol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mathau o Gwmpas: Cwmpas 'a' ac 'c'

55. Mae'r RAG yn pennu'r meini prawf ar gyfer diffinio pa ardaloedd y dyfernir statws "a" iddynt. 'Cernyw ac Ynysoedd Scilly' a 'Gorllewin Cymru a'r Cymoedd' yw'r ardaloedd 'a' y mae'r Comisiwn wedi eu dynodi yn y DU. Mae'r ardaloedd NUTS2[7] yma'n gymwys i gael statws 'a' ar y sail fod ganddynt GDP y pen sy'n llai na 75% o gyfartaledd yr UE. Mae projectau yn yr ardaloedd 'a' yn gymwys i gael cymorth dwysach na'r ardaloedd 'c'.

56. O dan RAG 2014-2020, mae'r Comisiwn wedi rhagddiffinio'r ardaloedd NUTS 3 canlynol yn y DU ar gyfer statws 'c', ar y sail eu bod yn ardaloedd â phoblogaeth wasgarog – dyma'r ardaloedd NUTS3 â dwysedd poblogaeth sy'n is na 12.5 person y cilomedr sgwâr:

    Caithness a Sutherland a Ross a Cromarty (NUTS3), Lochaber, Skye a Lochalsh, Arran a Cumbrae ac Argyll a Bute (NUTS3), ac Eilean Siar (NUTS3)

57. Mae'r tair ardal NUTS3 yma i gyfrif am 0.35% o gwmpas poblogaeth y DU. Ond mae'r canllawiau'n cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i ddynodi rhannau o'r ardaloedd hyn, a chynnwys ardaloedd cyfagos, ar yr amod bod gan y rhain boblogaeth o lai na 12.5 o

[7] System hierarchaidd yw'r dosbarthiad NUTS (Enwau Unedau Tiriogaethol ar ddibenion ystadegaeth) i rannu tiriogaethau economaidd yr UE http://epp.eurostat.ec.europa.eu/portal/page/portal/nuts_nomenclature/introduction Grwpiau o awdurdodau lleol yw NUTS3 fel rheol ac maent yn nythu i ardaloedd awdurdodau lleol cyfanred mwy y NUTS2.

drigolion y km² hefyd, ac y cydymffurfir â’r lwfans uchaf o ran cwmpas ‘c’ am ‘boblogaeth wasgarog’[8].

58. Mae’r Comisiwn yn rhagddiffinio ardaloedd â phoblogaeth wasgarog fel rhai cwmpas ‘c’ oherwydd am fod costau gweithgarwch economaidd yn uwch yn yr ardaloedd hyn. Am yr un rheswm, gellir dyfarnu cyfrannau uwch o gostau’r projectau yn yr ardaloedd ‘c’ a ragddiffinnir na’r ardaloedd ‘c’ eraill - sef 15% yn hytrach na 10% cyn taliadau bonws ar gyfer BBaCh.

Tabl 7.1 – Y Cwmpas o ran Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU yn ôl dyfarniad y Comisiwn ar gyfer 2014-2020

| **Y Deyrnas Unedig** | Rhanbarthau NUTS | GDP y pen | Canran y boblogaeth genedlaethol |
|---|---|---|---|
| ardaloedd ‘a’ | UKK3 Cernyw ac Ynysoedd Scilly | 72.67 | 0.86 % |
| | UKL1 Gorllewin Cymru a’r Cymoedd | 69.67 | 3.05 % |
| Ardaloedd ‘c’ a ragddiffiniwyd (ardaloedd â phoblogaeth wasgarog) | UKM61 Caithness a Sutherland a Ross a Cromarty | — | 0.15 % |
| | UKM63 Lochaber, Skye a Lochalsh, Arran Cumbrae ac Argyll a Bute | — | 0.16 % |
| | UKM64 Eilean Siar (Ynysoedd y Gorllewin) | — | 0.04 % |
| ‘c’ eraill | — | — | 22.79 % |
| Cyfanswm cwmpas y boblogaeth 2014-2020 | — | — | 27.05 % |

<u>Cwmpas ‘c’ na ragddiffiniwyd neu ‘ddisgresiynol’</u>

59. Mae gan weddill y boblogaeth gwmpas ‘c’ ‘na ragddiffiniwyd’. Bydd gan y Llywodraeth rywfaint o hyblygrwydd i ddyrannu’r hyblygrwydd hwn yn ddaearyddol, a hynny ar sail y 4 maen prawf cyntaf a ddisgrifir ym mharagraff 168 o’r RAG fel a ganlyn.

*Maen prawf 1: ardaloedd cyfagos ag o leiaf 100,000 o drigolion a leolir mewn rhanbarthau NUTS 2 neu NUTS 3 ac sydd â:*

[8] Gweler paragraff 161 o’r RAG.

*– GDP y pen sy'n is neu'n gyfartal â ffigur cyfartalog yr UE-27, neu;*
*– gyfradd diweithdra sy'n uwch neu'n gyfartal â 115% o'r ffigur cyfartalog cenedlaethol.*

*Maen prawf 2: rhanbarthau NUTS 3 â llai na 100,000 o drigolion ac sydd â:*
*– GDP y pen sy'n is neu'n gyfartal â ffigur cyfartalog yr UE-27, neu;*
*– gyfradd diweithdra sy'n uwch neu'n gyfartal â 115% o'r ffigur cyfartalog cenedlaethol.*

*Maen prawf 3: ynysoedd neu ardaloedd cyfagos a nodweddir gan arwahanrwydd daearyddol tebyg (er enghraifft penrhynoedd neu ardaloedd mynyddig) sydd â:*
*– GDP y pen sy'n is neu'n gyfartal â ffigur cyfartalog yr UE-27, neu;*
*– gyfradd diweithdra sy'n uwch neu'n gyfartal â 115% o'r ffigur cyfartalog cenedlaethol, neu; – llai na 5,000 o drigolion.*

*Maen prawf 4: rhanbarthau NUTS 3, neu rannau o ranbarthau NUTS 3 sy'n rhan o ardaloedd sy'n gyfagos ag ardal 'a' neu sy'n rhannu ffin ddaearyddol â gwlad y tu hwnt i AEE neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop* (EFTA).

60. Fel y mae Tabl 7.1 uchod yn ei nodi, gellir dyfarnu cwmpas c na ragddiffinnir i hyd at 22.79% o boblogaeth y DU. Am fod angen i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo Map y DU, mae'n bwysig bod y cwmpas 'disgresiynol' yma'n cael ei ddyrannu i Fap y DU yn unol ag ysbryd y RAG, gan roi cefnogaeth amlwg i amcanion cydgyfeirio economaidd yr UE.

61. Os yw'r ardal NUTS2 neu NUTS3 o dan sylw'n bodloni o leiaf un o'r meini prawf perthnasol, yna mae'n bosibl y gellir dynodi rhai o'r wardiau cyfagos o fewn yr ardal fel Ardaloedd a Gynorthwyir. Nid yw bodloni mwy nag un o'r meini prawf yn golygu bod statws yr Ardal a Gynorthwyir yn fwy dilys na phe bai'n bodloni un yn unig. Rhestrir yr holl ardaloedd NUTS3 yn y DU nad ydynt yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf uchod yn Nhabl 9.1 isod.

62. Mae'n bwysig hefyd nodi'r gofyniad i greu parthau cyfagos, a hynny'n nodweddiadol â phoblogaeth o dros 100,000 o bobl. Gall hyn osod cyfyngiadau o ran pa ardaloedd y gellir eu cwmpasu, neu'n wir, pa ardaloedd y mae angen eu cwmpasu.

63. Mae paragraff 169 o'r RAG, yn nodi y dylai'r Ardaloedd a Gynorthwyir gael eu datblygu o unedau LAU2[9] yr aelod-wladwriaeth. Wardiau'r Cyfrifiad yw unedau LAU2 y DU. Y wardiau felly fydd y blociau adeiladu a ddefnyddir i ddatblygu'r Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020 sy'n cael eu ffurfio o gwmpasiad 'c' na ragddiffiniwyd.

<u>Achosion arbennig: Ardaloedd sy'n wynebu newid strwythurol neu ddirywiad difrifol.</u>

[9] LAU – Uned Gweinyddol Leol – yr uned ddaearyddol leiaf yn hierarchiaeth Eurostat o ran dosbarthiad daearyddol.

64. Nid yw rhai o'r ardaloedd NUTS3 yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf uchod ac ni ellir dynodi'r ardaloedd oddi mewn iddynt yn Ardaloedd a Gynorthwyir nes bod cais llwyddiannus am ganiatâd arbennig wedi cael ei gyflwyno i'r Comisiwn yn unol â Maen Prawf 5 ym mharagraff 168 o'r RAG. Rhestrir yr ardaloedd NUTS3 yma yn Nhabl 9.1 isod.

    *Maen prawf 5: ardaloedd cyfagos ag o leiaf 50,000 o drigolion sy'n wynebu newid strwythurol o bwys neu sy'n dirywio'n ddifrifol, ar yr amod nad yw'r ardaloedd hyn wedi eu lleoli mewn rhanbarthau NUTS 3 nac mewn ardaloedd cyfagos sy'n bodloni'r amodau i gael eu dynodi'n ardaloedd a ragddiffinnir neu o dan Feini Prawf 1 i 4.*

65. Llywodraeth yr Aelod-wladwriaeth fydd yn cyflwyno unrhyw geisiadau o'r fath am statws Ardaloedd a Gynorthwyir o dan Faen Prawf 5 i'r Comisiwn, ac nid yr ardal o dan sylw. Gwneir hyn wrth hysbysu'r Comisiwn am Fap arfaethedig y DU ar gyfer 2014-2020.

66. Ni all ceisiadau o dan Faen Prawf 5 groesi unrhyw ffin NUTS3 i gynnwys poblogaethau a allai gael statws Ardal a Gynorthwyir o dan Feini Prawf 1-4 pe baent yn cael eu derbyn i'w dynodi.

67. Mae dyfarnu statws Ardal a Gynorthwyir o dan Faen Prawf 5 yn gofyn am gyflwyno cais am ganiatâd arbennig i'r Comisiwn. Mae hyn yn awgrymu bod y Comisiwn yn edrych ar achosion o'r fath fel rhai eithriadol sy'n gofyn am archwiliadau ychwanegol.

Adolygiad Canol Tymor a Phoblogaethau Wrth Gefn

68. Os cyflawnir adolygiad canol tymor o'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU ar gyfer 2014-2020, disgwylir i unrhyw ddiwygiadau ddod i rym ar 1 Ionawr 2017 yn unol â pharagraff 183 o'r RAG. Gwneir unrhyw benderfyniad o ran a ddylid cyflawni adolygiad canol tymor o'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU ar gyfer 2014-2020 yn ddiweddarach.

69. Gall Aelod-wladwriaethau ddewis cadw poblogaeth wrth gefn i'w dyrannu i'r Map yn ddiweddarach, ar yr amod bod y cwmpasiad hwn yn cael ei ychwanegu yn unol â'r RAG. Mae cwestiwn D03 yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r posibilrwydd o gadw poblogaeth wrth gefn yn y DU i'w dyrannu i'r Map yn ddiweddarach. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 180-182 o'r RAG.

## 8. Y Broses Ymgynghori

70. Cyflawnir yr ymgynghoriad ar yr Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020 mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn cynnig yr egwyddorion cyffredin ar gyfer llunio'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020. Mae'n gofyn hefyd am wybodaeth leol am ardaloedd o gyfle ac angen economaidd. Caiff y wybodaeth hon ei chasglu'n bennaf gan y Partneriaethau Cyflogaeth Lleol (LEPs) yn Lloegr, a'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru a'r Alban. Bydd rhan gyntaf yr ymgynghoriad yn cau ar ddydd Llun, 30 Medi 2013.

71. Gan gymryd yr ymatebion i Ran 1 o'r ymgynghoriad i ystyriaeth, bydd BIS, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn ystyried pa leoedd ddylai gael eu cynnwys fel Ardaloedd a Gynorthwyir ar y Map drafft yr ymgynghorir arno yn Ail Ran yr ymgynghoriad. Caiff hyn ei adeiladu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau o brofi angen economaidd a'r potensial ar gyfer ehangu economïau cartref sydd dan anfantais, gan ddefnyddio cymorth rhanbarthol i fuddsoddi mewn ymgymeriadau, sef y busnesau yn yr ardaloedd hynny fel rheol. Caiff y blaenoriaethau lleol a'r ymatebion eraill sy'n dod i law yn ystod Rhan Gyntaf yr Ymgynghoriad eu hystyried ochr yn ochr â'r egwyddorion a bennir ar ffurf drafft isod.

72. Disgwylir i Ail Ran yr ymgynghoriad gychwyn yng ngaeaf 2013/14 gan ofyn am sylwadau ar y Map drafft o'r Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020. BIS fydd yn datblygu'r rhan o'r Map drafft ar gyfer Lloegr, Llywodraeth yr Alban fydd yn datblygu rhan yr Alban, a Llywodraeth Cymru fydd yn datblygu rhan Cymru. O dan oruchwyliaeth Gweinidogion y DU, caiff y cydrannau eu cyfuno i greu Map drafft ar gyfer Prydain i gyd, a hwn fydd testun ail ran yr ymgynghoriad.

73. Wedyn caiff y Map drafft o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer Lloegr ei addasu gan BIS, a chaiff y Mapiau drafft ar gyfer Cymru a'r Alban eu haddasu gan Lywodraethau Cymru a'r Alban fel y bo'n briodol. Caiff yr adborth a gesglir trwy Ail Ran yr ymgynghoriad ei ystyried yn hyn o beth. Wedyn bydd Gweinidogion y DU yn cytuno ar y fersiwn o Fap y DU i'w chyflwyno am gymeradwyaeth y Comisiwn. Disgwylir i'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020 ddod i rym ar 1 Gorffennaf 2014 ochr yn ochr â'r RAG ar gyfer 2014-2020. Mae'r amserlen hwn yr un fath ar gyfer holl Aelod-wladwriaethau'r UE.

<u>Rhan Gyntaf yr Ymgynghoriad – Egwyddorion Cyffredin a Gwybodaeth Leol</u>

74. Mae'r rhan yma o'r ymgynghoriad yn cynnig dull o weithredu sy'n fwy o'r gwaelod i fyny o'i gymharu â rhan gyntaf yr ymgynghoriad ar gyfer Map 2007-2013. Y nod yw defnyddio mwy o wybodaeth economaidd a gasglwyd yn lleol i ddatblygu'r Map drafft.

75. Yn gyntaf, mae BIS a'i bartneriaid yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban am ddilysu pa mor addas yw'r egwyddorion a gynigiwyd i ddatblygu'r Map o AA ar gyfer 2014-2020 (a ddisgrifir ym mharagraffau 109-116, ac eto ym mharagraffau 157-164 isod) yn nhermau datblygu Map o AA sy'n deg ac effeithiol. Cynhwyswyd yr egwyddorion hyn hefyd er mwyn bwydo natur yr ymatebion sy'n darparu'r dystiolaeth economaidd leol a'r blaenoriaethau o ran cwmpas priodol ar gyfer yr Ardaloedd a Gynorthwyir wrth edrych tua'r dyfodol.

76. Yn ail, mae'n hanfodol deall y ddaearyddiaeth o ran cyfleoedd economaidd lleol er mwyn i'r Llywodraeth benderfynu, ar lefel genedlaethol a lleol, pa leoedd sy'n cynnig y cyfleoedd mwyaf arwyddocaol i lywodraethau ddefnyddio cymorth rhanbarthol er mwyn cynorthwyo economïau sydd o dan anfantais economaidd. Bydd angen i'r Llywodraeth ystyried maint a dwyster yr angen economaidd yn lleol, a hefyd natur y cyfleoedd economaidd a allai gefnogi'r economïau hyn, a bydd gwybodaeth leol yn hanfodol wrth greu'r darlun manwl yma.

77. Mae'r mapiau o ardaloedd a gynorthwyir yn y DU yn dyddio nôl i Ddeddf Ardaloedd Arbennig 1934. Mae'r mapiau hyn yn dangos patrymau daearyddol cyffredin dros gyfnod o 80 mlynedd, sy'n pwysleisio bod gwreiddiau dwfn i batrymau gofodol o angen economaidd yn aml. Mae hyn er gwaethaf tystiolaeth sylweddol bod y manteision y mae statws Ardaloedd a Gynorthwyir wedi eu dwyn wedi bod yn werthfawr wrth ddenu cyflogaeth i ardaloedd. Cododd dosbarthiad yr Ardaloedd a Gynorthwyir yn y diweddaraf o'r mapiau hyn, sef Map 2007-2013, o ymgynghoriad cyhoeddus helaeth gan y llywodraeth, a dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth, a chafodd ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae cymryd y Map gweithredol cyfredol ar gyfer 2007-2013 i ystyriaeth wrth ddatblygu'r Map ar gyfer 2014-2020 yn adlewyrchu elfennau o'r RAG hefyd.

<u>Asesu Cyfleoedd Economaidd</u>

78. Cynigir asesu'r cyfleoedd economaidd yn nhermau'r potensial ar gyfer cataleiddio economïau lleoedd sydd o dan anfantais economaidd trwy roi cymorth rhanbarthol i ymgymeriadau, sef busnesau fel rheol.

79. Cynorthwyo gweithgynhyrchu yn y DU yw un o nodau polisi allweddol Llywodraeth y DU a'u hamcan yn hyn o beth yw adfer cydbwysedd yr economi rhwng y gwahanol sectorau. Mae cymorth rhanbarthol, sef buddsoddiad cyfalaf fel rheol, yn addas iawn i'w fuddsoddi mewn gweithgynhyrchu, sy'n fusnes dwys o ran cyfalaf, ac sy'n aml â chadwyni cyflenwi dwfn a lleol. Felly cwmnïau gweithgynhyrchu sy'n elwa ar gynlluniau a rhaglenni'r Llywodraeth i wario cymorth rhanbarthol yn aml (gweler Adran 5 uchod).

80. Er ei bod yn cael ei defnyddio'n llai aml at y dibenion hyn, gall cymorth rhanbarthol gynorthwyo gwaith i ddatblygu ac adnewyddu safleoedd hefyd, er enghraifft trwy'r Lwfans Adnewyddu Safleoedd Busnes a ganiateir gan CThEM[10], a gall y Cynlluniau Cymorth ar gyfer Safleoedd ddarparu cymorth ariannol ar gyfer rhai mathau o waith adfywio hefyd.

<u>Asesu Angen Economaidd</u>

81. Mae'r metrigau o ran angen economaidd a awgrymir isod yn cyd-fynd â Deddf Datblygu Diwydiannol 1982, sef y ddeddf sy'n darparu'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Gorchymyn Ardaloedd a Gynorthwyir 2014. Yn nhermau'r Ardaloedd a Gynorthwyir, mae'r ddeddf yn datgan "Wrth ymarfer ei bwerau o dan ddarpariaethau blaenorol yr adran hon, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried yr holl amgylchiadau

[10] Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

gwirioneddol a disgwyliedig, gan gynnwys y sefyllfa o ran cyflogaeth a diweithdra, newidiadau yn y boblogaeth, ymfudiad ac amcanion polisïau rhanbarthol."

82. Maent yn debyg hefyd i'r metrigau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2007-2013, a ystyriodd gyfraddau uchel o bobl â lefelau sgiliau o NVQ2 ac is o fewn y boblogaeth oedran gweithio, cyfraddau cyflogaeth isel a chyfraddau uchel o ran hawlwyr y budd-dal analluedd fel arwyddion o anfantais economaidd ac addasrwydd ar gyfer statws Ardal a Gynorthwyir. Er nad yw'n fesur o angen economaidd, am y rhesymau a bennir yn y testun sy'n cyflwyno Egwyddor 8, cynhwyswyd cyfraddau uchel o gyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu hefyd yn y set o fetrigau a ddefnyddiwyd yn 2007-2013, ac awgrymir cadw hyn ar gyfer 2014-2020.

a) Cyfraddau Cyflogaeth Isel

b) Cyfraddau Sgiliau Isel (lefel 2 ac is)

c) Cyfradd Uchel o Hawlwyr Budd-daliadau o Oedran Gweithio

d) Twf isel yn y boblogaeth/allfudiad net o'r boblogaeth o oedran gweithio

e) Cyfraddau uchel o swyddi gweithgynhyrchu

83. Mae rhywfaint o ddata wedi cael ei gyhoeddi eisoes mewn perthynas â'r metrigau uchod. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddata yn y fformat terfynol y mae BIS yn cynnig ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae hyn yn bennaf oherwydd amseriad allbwn y cyfrifiad, lle mae'r allbwn yn cael ei ryddhau gam wrth gam. Dyma ddisgrifiad o'r sefyllfa bresennol o ran y data:

a) Cyfraddau cyflogaeth: Mae'r cyfraddau ar sail cyfrifiad 2011 ar gael ar hyn o bryd trwy fynd i: <http://neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/LeadHome.do> (dewiswch *Topics*, wedyn *census*, wedyn *economic activity* a llwythwch y set data ar gyfer hierarchaeth weinyddol). Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn rhoi'r cyfraddau ar gyfer pobl 16-74 oed. Mae BIS yn cynnig defnyddio'r cyfraddau gweithgarwch economaidd ar gyfer pobl o oedran gweithio (16-64 oed) ac eithrio myfyrwyr amser llawn, am y gallai hynny ystumio'r ffigurau mewn mannau lle mae poblogaeth helaeth o fyfyrwyr. Dylai hyn fod ar gael ar gyfer Cymru a Lloegr yn ddiweddarach yr haf yma, ac ar gyfer yr Alban yn yr hydref. Mae manylion allbwn arfaethedig y cyfrifiad ar gael trwy fynd i: www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-prospectus/index.html <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-prospectus/index.html> ar gyfer Cymru a Lloegr, a: www.scotlandscensus.gov.uk/en/news/articles/outputsprospectus.html <http://www.scotlandscensus.gov.uk/en/news/articles/outputsprospectus.html> ar gyfer yr Alban.

b) Sgiliau: Mae data am sgiliau ar gyfer y rhai a chymwysterau lefel 2 neu'n uwch ar gael o'r cyfrifiad hefyd trwy fynd i: http://neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/LeadHome.do (dewiswch *Topics*, wedyn *census*, wedyn *highest level of qualification* a llwythwch y set data ar gyfer yr hierarchaeth weinyddol). Ond eto, nid yw'r wybodaeth yn y fformat mae BIS yn cynnig ei ddefnyddio am ei fod yn cynnwys pawb sydd dros 16 oed. Mae BIS yn cynnig

defnyddio'n hytrach y boblogaeth o oedran gweithio. Bydd y data yma ar gael ar sail allbwn y cyfrifiad yn ôl y disgrifiad uchod.

c) Budd-daliadau oedran gweithio: Mae hyn ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Prydain Fawr trwy ddata gweinyddol DWP. Gellir ei gyrchu trwy fynd i: <https://www.nomisweb.co.uk/query/select/wizpopular.asp> (dewiswch *benefit claimants - working age clients for small areas*). Mae'r set data yma ar gael yn seiliedig ar y ffiniau wardiau hŷn yn unig ar hyn o bryd. Mae modd cydgrynhoi data cyfanred ar lefel LSOA ar gyfer ardaloedd sy'n agos at y rhai sy'n defnyddio ffiniau newydd y wardiau, ond mae'n bosibl y byddai yna anghysonderau mewn mannau, a dyna un o'r rhesymau pam na all y defnydd o fetrigau fod yn rhy ragnodol.

d) Allfudiad: Mae'r data hwn ar gael trwy NOMIS ar gyfer 2011 ar sail ffiniau newydd y wardiau, ac ar gyfer 2001 ar sail y ffiniau hŷn, trwy fynd i <http://neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/LeadHome.do> (dilynwch *Topics*, wedyn *census* ar gyfer 2001 a 2011). Nid yw'r rhan fwyaf o'r wardiau wedi newid rhwng y ddwy set o ddata, ond rydyn ni'n cynnig y dylid cydgrynhoi data cyfanred i lefel (LEP) yn Lloegr lle nad yw'r newidiadau yn y ffiniau'n gwneud fawr ddim o wahaniaeth. Yng Nghymru a'r Alban, câi'r data ei gydgrynhoi i lefel Awdurdod Lleol, ac eto, bydd hyn yn lleddfu'r rhan fwyaf o'r problemau o ran newid ffiniau'r wardiau.

e) Swyddi gweithgynhyrchu: Mae data ar gyfer Prydain Fawr, ar lefel dosbarth, sir ac awdurdod unedol ar gael yn rhannol (cyfunir gweithgynhyrchu â'r grŵp 'mwyngloddio, chwarela a chyfleustodau' llai er mwyn creu grŵp 'Cynhyrchu' ehangach' yn: <http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-254601>. Mae BIS yn cynnig cynhyrchu dadansoddiad wedi ei addasu o Gofrestr Busnes ONS er mwyn cynhyrchu data ar lefel ward. Ni chaiff y data ei gyhoeddi, ond gellir rhyddhau data ar gyfer yr ardaloedd cyfanredol yn amodol ar archwiliadau datgelu. Cedwir metrigau a, b ac e o 2007-2013. Cynigir defnyddio cyfrifiad o hawlwyr budd-daliadau o oedran gweithio yn hytrach na'r cyfraddau sy'n hawlio budd-daliadau analluedd, am fod hyn yn cymryd amrediad ehangach o anfantais economaidd i ystyriaeth, ynghyd ag effeithiau'r rhwystrau i'r farchnad lafur. Mae twf isel y boblogaeth/allfudiad net yn cyfeirio nôl at destun Deddf Datblygu Diwydiannol 1982, ac fe'i cynhwysir er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod diffyg cyfleoedd yn un o'r ffactorau allweddol sydd y tu ôl i symudiadau o fewn boblogaeth.

84. Mae'r set yma o fetrigau arfaethedig wedi cael ei chreu'n benodol ar gyfer y maes polisi hwn, Ei nod yw cwmpasu'r lleoedd hynny a fyddai'n elwa o gael cymorth rhanbarthol. Mae'n bosibl y byddai setiau eraill o fetrigau, fel y mynegeion o amddifadedd lluosog, yn fwy addas ar gyfer penderfyniadau am ymyraethau polisi eraill.

85. Cynigir ystyried angen economaidd ar sail dwy raddfa gofodol:

1) ar lefel Partneriaethau Menter Leol (LEP) yn Lloegr, ac ar lefel Awdurdodau Lleol (ALl) yng Nghymru a'r Alban; a

2) ar lefel Ardaloedd a Gynorthwyir neu eu wardiau cyfansoddol.

86. Cynigir bod metrigau a, b, ac c uchod yn addas i'w hystyried ar 1) lefel LEP yn Lloegr ac ar lefel ALl yng Nghymru a'r Alban; a 2) ar lefel fwy lleol fel y darpar Ardaloedd a

Gynorthwyir, neu'r wardiau sy'n cael eu defnyddio fel blociau adeiladu i adeiladu'r darpar-ardaloedd a gynorthwyir.[11]

87. Cynigir y dylid ystyried metrig d) ar lefel LEP yn Lloegr ac ar lefel ALl yng Nghymru a'r Alban, ac nid ar lefel mwy lleol fel y darpar Ardaloedd a Gynorthwyir neu'r wardiau cyfansoddol. Mae hyn am fod llawer o ffactorau eraill, heblaw amodau'r farchnad lafur, yn ffactorau cadarnach o ran symudiadau'r boblogaeth. Cynigir bod cyfraddau cyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu – sef metrig e - yn cael eu hystyried ar y lefel leol yn unig - e.e. ar lefel y darpar Ardaloedd a Gynorthwyir neu'r wardiau sy'n cael eu defnyddio fel bloc adeiladu i greu'r darpar ardaloedd a gynorthwyir. Mae hyn am fod swyddi gweithgynhyrchu'n aml yn crynhoi mewn mannau penodol, a gallai hynny gael ei guddio wrth ystyried cyflogaeth mewn ardaloedd gofodol ehangach.

88. Mae ystyried angen economaidd ar lefel LEP (yn Lloegr) neu ALl (yng Nghymru a'r Alban), yn ogystal ag ar lefel Ardaloedd a Gynorthwyir, yn cynnig mwy o hyblygrwydd daearyddol i'r lleoedd hynny lle mae lefelau cymharol uchel o angen economaidd, ond lefelau cymharol isel o gyfleoedd economaidd, o ran eu hawgrymu fel darpar Ardaloedd a Gynorthwyir.

Ymateb i Ran Gyntaf yr Ymgynghoriad

89. Mae dwy fath o ffurflen ar gael i ymateb i Ran Gyntaf yr ymgynghoriad trwy fynd i https://www.gov.uk/government/consultations/assisted-areas-map-2014-to-2020, www.scotland.gov.uk/Topics/Government/State-Aid a http://wales.gov.uk/consultations/;jsessionid=2A173646359D86BA3CF12CC0727ED146?lang=en. Mae'r naill ar gyfer y prif ymatebwyr – sef y Partneriaethau Menter Leol (LEPs) yn Lloegr a'r Awdurdodau Lleol (ALl) yng Nghymru a'r Alban; a'r llall ar gyfer pobl eraill sydd â diddordeb.

90. Mae'r ffurflen ar gyfer LEPs yn Lloegr ac ALl yng Nghymru a'r Alban (Ffurflen 1) yn cynnig mwy o flychau i ddarparu gwybodaeth am yr economi lleol na'r ffurflen ar gyfer 'ymatebwyr eraill' (Ffurflen 2).

91. Mae hyn am y gofynnir i'r LEPs yn Lloegr gydlynu un ymateb lleol i adran 'gwybodaeth leol' Ran Gyntaf yr ymgynghoriad. Nid oes LEPs yng Nghymru a'r Alban ac felly gofynnir i'r ALl gyflawni rôl gyfatebol yno.

92. Mae'r llywodraeth yn gofyn i'r LEPs yn Lloegr gyflawni'r rôl cydlynu yma am y rhesymau canlynol:

1) Am fod yr LEPs yn rhan annatod o seilwaith datblygu economaidd Lloegr ac y bydd rhoi'r rôl cydlynu yma i'r LEPs yn hyrwyddo cydlyniant rhwng datblygiad yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Ardaloedd a Gynorthwyir, y blaenoriaethau o ran datblygiad

[11] Mae'n bosibl na fydd Metrig c ar gael ar sail ffiniau wardiau 2011 erbyn i BIS fynd ati i ddadansoddi'r darpar Ardaloedd a Gynorthwyir. Os yw hynny'n wir, ac os bwriedir defnyddio'r metrig hwn, defnyddir mesur cyfatebol addas.

gofodol a nodir yng nghynlluniau economaidd strategol yr LEPs a'r cynlluniau gwariant ar gyfer Cronfeydd Hybu Twf Lleol Unigol yr LEPs; a

2) Mae maen prawf 1 ym mharagraff 168 o'r RAG yn nodi bod ar y mwyafrif o'r Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU angen poblogaeth o dros 100,000. Trwy gynrychioli ardal sy'n cwmpasu nifer o awdurdodau lleol, mae'r LEPs yn gallu helpu i adnabod ac ymateb i'r blaenoriaethau economaidd ar draws ffiniau gweinyddol. Mae hyn yn fanteisiol o gymryd y dylai statws Ardaloedd a Gynorthwyir ymateb i ddaearyddiaeth economaidd yn hytrach na ffiniau gwleidyddol o fewn gweithrediad y RAG.

93. Yn wir, wrth geisio sicrhau taeniad effeithiol o Ardaloedd a Gynorthwyir, a rhoi ystyriaeth deg i'r dosbarthiad o ran angen a chyfleoedd economaidd, mae'r Llywodraeth yn annog yr LEPs i weithio mewn grwpiau er mwyn adnabod unrhyw ddarpar Ardaloedd a Gynorthwyir sy'n croesi ffiniau LEPs.

94. Yn yr un modd, yng Nghymru a'r Alban, anogir ymatebion cydlynol gan grwpiau o awdurdodau lleol, ac mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn cefnogi'r amcan hwn.

95. Dylai LEPs a grwpiau o LEPs yn Lloegr, ac ALl a grwpiau o ALl yng Nghymru a'r Alban ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio **Ffurflen 1**. Ceir canllawiau ar sut i lenwi'r ffurflen hon yn Adran 9 isod.

96. Gall unigolion neu gyrff eraill ddewis darparu mewnbwn i'r ymatebion sy'n cael eu cydlynu gan yr LEPs a grwpiau o LEPs yn Lloegr, a chan ALl a grwpiau o ALl yng Nghymru a'r Alban. Y ffordd orau o wneud hyn yw trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r LEPs (yn Lloegr) neu'r ALl (yng Nghymru a'r Alban) er mwyn bwydo'r wybodaeth iddyn nhw ei hystyried. Mae gwefan yr LEP Network yn darparu map y gellir clicio arno, sy'n dangos pa LEP i gysylltu ag ef ynghylch ardal benodol, a sut i gysylltu â nhw. Ewch i www.lepnetwork.org.uk/leps.html. Fel arall, croeso i chi e-bostio AssistedAreasConsultation@bis.gsi.gov.uk i ofyn am gymorth. Os ydych chi am gyflwyno ymateb ar sail ardal o'r Alban neu Gymru, a'ch bod am gysylltu ag awdurdod lleol am gymorth e-bostiwch AssistedAreasConsultation@Wales.gsi.gov.uk neu AssistedAreasConsultation@Scotland.gsi.gov.uk. Os na allwch chi e-bostio, ysgrifennwch at y timau yn BIS, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth yr Alban a enwir yn Adran 3 o'r ddogfen ymgynghori.

97. Mae'r Llywodraeth yn gofyn bod LEPs (yn Lloegr) ac ALl (yng Nghymru a Lloegr) yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu a chydlynu ymatebion lleol ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r ffurflen ar gyfer LEPs yn Lloegr ac ALl (Cymru a'r Alban) – sef **Ffurflen 1** – yn cynnwys gwahanol set o gwestiynau i **Ffurflen 2** felly, sef y ffurflen y dylai'r ymatebwyr eraill ei llenwi. Ceir canllawiau ar sut i lenwi **Ffurflen 2** yn Adran 10 isod.

98. Yn ogystal, caiff unigolion a sefydliadau ar draws Prydain Fawr gyfle i gyflwyno'u sylwadau ar y Map drafft o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-2020 a fydd yn sylfaen Ail Ran yr ymgynghoriad.

# 9. Ffurflen Adrodd 1 – y ffurflen ar gyfer LEPs yn Lloegr ac ALI yng Nghymru a'r Alban

99. Mae'r adran hon yn cynnwys canllawiau ynglŷn â llenwi'r ffurflen ar gyfer LEPs yn Lloegr ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru a'r Alban. Os nad ydych yn cynrychioli un o'r cyrff hyn, gwelwch Adran 10 isod lle mae'r canllawiau ar gyfer atebwyr eraill i'w cael.

**Adran A – Rhyddid Gwybodaeth**

100. Dylai'r atebwyr fod yn ymwybodol bod BIS a Llywodraethau Cymru a'r Alban yn ddarostyngedig i ofynion cyfreithiol parthed rhyddhau gwybodaeth a ddelir ganddynt, gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). O dan rai amgylchiadau, gall y wybodaeth a ddarperir fod yn esempt rhag ei rhyddhau (gan gynnwys o dan adran 40, 41 neu 43 o'r FOIA), a bydd yr awdurdod cyhoeddus perthnasol, yn ddarostyngedig i'r gofynion cyfreithiol hynny, yn gofalu am barchu cyfrinachedd pan fydd ymgeiswyr wedi gofyn i ni wneud hynny. Er mwyn helpu'r awdurdod cyhoeddus perthnasol i drin ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn effeithlon, dad-diciwch y blwch Rhyddid Gwybodaeth gwyrdd wrth y cwestiynau nad ydych yn dymuno i ni ryddhau'ch ateb iddynt os bydd cais Rhyddid Gwybodaeth yn dod i law. Os na fyddwch yn dad-dicio blwch Rhyddid Gwybodaeth gwyrdd wrth gwestiwn, byddwn yn cymryd eich bod yn caniatáu rhyddhau'r wybodaeth o dan yr FOIA.

101. Fel arall, cewch ddad-dicio'r blwch Rhyddid Gwybodaeth gwyrdd sy'n cyfeirio at yr holl ffurflen os nad ydych yn dymuno i ni ryddhau'r un o'ch atebion os daw cais Rhyddid Gwybodaeth i law.

102. Nid yw dad-dicio blwch yn gwarantu na fydd y wybodaeth yn cael ei rhyddhau. Nodwch eich rhesymau dros ddymuno cael eich eithrio ym MlwchA02, gan gynnwys eich rhesymau dros farnu bod y wybodaeth yn wybodaeth esempt fel y'i diffinnir yn yr FOIA (er enghraifft, oherwydd y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn niweidiol i fuddiannau masnachol yn eich ardal).

103. Dylech nodi, fodd bynnag, mai'r awdurdod cyhoeddus perthnasol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch rhyddhau gwybodaeth neu beidio, gan ystyried gofynion cyfreithiol yr FOIA ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. Mae rhai esemptiadau FOIA yn gofyn dadansoddiad o ystyriaethau budd y cyhoedd. Yn aml, cyn gwneud penderfyniad, mae angen i awdurdod cyhoeddus bwyso ffactorau gwrthwynebol yn erbyn ei gilydd, ar sail amgylchiadau penodol yr achos. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch yr FOIA i'w gael ar: http://www.ico.gov.uk/for_organisations/freedom_of_information/guide.aspx

**Adran B – Manylion Personol**

104. Rhowch y manylion y gofynnir amdanynt ar y ffurflen. Mae croeso i chi gysylltu ag AssistedAreasConsultation@bis.gsi.gov.uk os bydd gennych unrhyw ymholiadau.

## Adran C – Cyd-drefnu Atebion Lleol

105. Er mwyn sicrhau atebion lleol cyd-drefnus, mae **Ffurflen 1** yn cynnig cwestiynau **C01** i **C02** er mwyn cael gwybodaeth yr ydym yn gobeithio y bydd yn hybu atebion cyd-drefnus sengl gan nifer o gyrff. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn **Ffurflen 1** o ystyried bod y Llywodraeth wedi gofyn bod LEPs yn Lloegr ac ALl yng Nghymru a'r Alban yn cyd-drefnu a datblygu'r adroddiadau gwybodaeth leol manylach y gofynnir amdanynt yn Adran E o **Ffurflen 1**. Mae cwestiynau tebyg ar Ffurflen 2 yr 'atebwyr eraill' hefyd er mwyn deall pa gyrff ac unigolion a gyfrannodd i'r atebion hynny.

**C01**: A yw'r ymateb hwn gan un LEP (yn Lloegr)/ALl (yng Nghymru a'r Alban) neu gan grŵp o LEPs (yn Lloegr)/ALl (yng Nghymru a'r Alban)?

**C02:** Pa gyrff neu bersonau sydd wedi cyfrannu at yr ateb hwn?

**C03**: Rhestrwch unrhyw safbwyntiau lleiafrifol a gyflwynwyd i'r LEP (yn Lloegr)/ALl (yng Nghymru a'r Alban) neu unrhyw grŵp o'r rhain sydd wedi bod wrthi'n llunio'r ymateb hwn, nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr atebion i'r cwestiynau isod. Lle bo modd, nodwch ba gorff neu gyrff a ddarparodd y wybodaeth hon.

**C04**: Nodwch unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r modd y datblygwyd ac y paratowyd yr ateb hwn.

106. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyfarfod ag unrhyw LEP neu grŵp o LEPs sy'n cyflwyno ateb i Ran 1 o'r ymgynghoriad ac sy'n dymuno cael cyfarfod. Cynhelir y 'clinigau' hyn ar ôl gorffen Rhan 1 o'r ymgynghoriad a chyn cychwyn Rhan 2. Disgwylir y caiff yr amser ei ddefnyddio'n bennaf i drafod atebion yr ardal honno mewn perthynas â gwybodaeth leol. Bydd BIS yn cyhoeddi dyddiadau yn ystod Rhan 1 o'r ymgynghoriad. Mae croeso i LEPs ddod â chynrychiolwyr o gyrff eraill, megis awdurdodau lleol Lloegr. Bydd Llywodraethau Cymru a'r Alban yn cynnal clinigau tebyg ar gyfer yr awdurdodau lleol yno. Nod pennaf y clinigau hyn yw archwilio'r atebion gwybodaeth leol (Adran E) a ddaw i law gan LEPs yn Lloegr a'r awdurdodau lleol yng Nghymru a'r Alban.

## Adran D – Egwyddorion Cyffredin Arfaethedig ar gyfer llunio Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020

107. Nodir nifer o egwyddorion cyffredin isod y mae'r DU yn bwriadu eu defnyddio'n sylfaen i lunio Mapiau Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020. Mae'r tebygolrwydd o gael cymeradwyaeth amserol gan y Comisiwn yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu'r Map. Ymgynghorir ynglŷn â'r egwyddorion hyn fel rhan o Ran 1 o'r ymgynghoriad hwn. Er y gallai'r egwyddorion hyn newid yn y dyfodol, dylai'r atebwyr eu defnyddio fel canllaw wrth lenwi'r adran gwybodaeth leol a blaenoriaethau yn yr ymgynghoriad hwn – cwestiynau **E01** i **E05**. Bydd Rhan 2 o'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle i'r atebwyr gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r Map drafft, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau a wneir i'r egwyddorion cyffredin ar ôl Rhan 1 o'r ymgynghoriad.

108. **Egwyddor 1**: **Dylai Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU adlewyrchu cyfleoedd i gynnal busnesau â chymorth rhanbarthol mewn lleoliadau a fydd yn cynnal**

**economïau lleoedd dan anfantais economaidd.** (gweler paragraff 76 uchod)

109. **Egwyddor 2: Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio cyfuniad o dystiolaeth a gwybodaeth economaidd feintiol ac ansoddol (megis atebion i'r ymgynghoriad) ac ystyriaethau polisi economaidd perthnasol i bennu anghenion a chyfleoedd economaidd cymharol lle o ran y potensial i ddefnyddio cymorth rhanbarthol i gefnogi amcanion cydgyfeiriant economaidd.** (gweler paragraff 16 uchod)

110. **Egwyddor 3: O dan ran amgylchiadau, mae'n bosibl mai prif nod penodi rhaid wardiau yn Ardaloedd a Gynorthwyir fyddai cysylltu wardiau eraill sy'n cynnwys y nodweddion a geisir ar gyfer statws Ardal a Gynorthwyir - h.y. cyfleoedd economaidd sylweddol a allai gataleiddio economïau sydd dan anfantais – o fewn poblogaeth gyffiniol sydd dros y lleiafswm angenrheidiol (fel arfer 100,000 o bobl).** (mae lleiafsymiau poblogaeth eraill i'w gweld ym mharagraff 168 o'r RAG)

111. **Egwyddor 4: Dylai Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013 fod yn ystyriaeth o bwys wrth ddatblygu ei olynydd ar gyfer 2014-2020.** (gweler paragraff 77 uchod)

112. **Egwyddor 5: Dylai sicrhau cymhwysedd i gynnal cwmnïau mawr â chymorth rhanbarthol fod yn ystyriaeth wrth lunio Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020 gan fod llai o gyfyngiadau ar y Llywodraeth mewn cysylltiad â chynnal busnesau bach a chanolig â buddsoddiant cyfalaf o dan ffurfiau eraill ar gymorth gwladwriaeth.** (gweler paragraff 45 uchod)

113. **Egwyddor 6: Dylai cynnig i gyrff cyhoeddus y DU yr hyblygrwydd i fuddsoddi cymorth rhanbarthol mewn ehangu a datblygu gweithgynhyrchu yn y DU fod yn nod allweddol wrth ddatblygu'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir.** (gweler paragraffau 43 a 79 uchod)

114. **Egwyddor 7:** (gweler paragraffau 81 i 85 uchod)**: Mae'r mesuryddion angen economaidd y dylid eu defnyddio i lywio datblygiad y Map fel a ganlyn:**

**a) Cyfradd Cyflogaeth Isel**

**b) Cyfradd Sgiliau Isel (lefel 2 ac is)**

**c) Cyfradd Uchel o Hawlwyr Budd-daliadau o Oedran Gweithio**

**d) Twf poblogaeth isel / allfudo net ar ran pobl o oedran gweithio**

**e) Cyfraddau gweithgyngyrchu uchel**

115. **Egwyddor 8** (gweler paragraffau 86 i 89): **Cynigir y caiff angen economaidd cymharol ei ystyried ar ddwy raddfa ofodol:**

**- 1) ar lefel y Bartneriaeth Menter Leol (LEP) yn Lloegr, ac ar lefel yr Awdurdod Lleol (ALl) yng Nghymru a'r Alban; a**

**- 2) ar lefel yr Ardal a Gynorthwyir bosibl neu yn ei wardiau cyfansoddol**

116. Mae ffurflenni ateb yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn sy’n ymwneud â’r wyth egwyddor uchod ar gyfer llunio’r Map: mae **D01** yn gofyn, a ydych yn y bôn yn cefnogi’r egwyddorion ar gyfer llunio Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020 a nodir yn 109-116 o’r ddogfen ymgynghori? Os oes unrhyw egwyddorion nad ydych chi’n eu cefnogi, rhowch dystiolaeth i esbonio pam yn **D02**.

117. O dan baragraffau 180 i 182 o’r RAG, mae Aelod-wladwriaethau yn cael dewis peidio â datgelu maint y boblogaeth a gynhwysir ar eu mapiau cymorth rhanbarthol. Maent yn cael ychwanegu’r boblogaeth hon i’w Mapiau wedyn, efallai fel ymateb i gyfleoedd neu anghenion economaidd sy’n codi. Er mwyn defnyddio’r stoc boblogaeth hon wrth gefn i ychwanegu lleoedd i’r Map, nid oes angen tynnu lleoedd o’r Map Ardaloedd a Gynorthwyir.

118. Mae cwestiwn **D03** yn gofyn: A ydych yn barnu, ar gyfer y wlad yr ydych wedi dewis ateb drosti (Cymru, Lloegr neu’r Alban), y dylid cadw ffigurau poblogaeth ‘c’ ragddiffiniedig yn ôl er mwyn eu dosbarthu ar Fap 2014-2020 rywdro wedyn? Un o brif fanteision stoc boblogaeth wrth gefn yw bod modd ei defnyddio i ymateb i gyfleoedd a sioc economaidd a allai godi’n ddiweddarach. Un o’r prif anfanteision yw na fydd y stoc o boblogaeth wrth gefn yn effeithiol nes iddo gael ei ychwanegu at y Map, felly dim ond am ran o’r cyfnod 2014-2020 y bydd yn effeithiol. Mae cwestiwn **D04** yn gofyn am y rhesymeg y tu ôl i’ch ateb i **D03**.

**Adran E – Gwybodaeth Leol**

119. Mae ffurflen ateb yr ymgynghoriad yn gofyn nifer o gwestiynau sy’n ceisio hel gwybodaeth leol i gyfrannu i benderfyniad Gweinidogion parthed yr Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU a gynigir i’r Comisiwn. Caiff y wybodaeth leol a ddaw i law ei hystyried gan y Llywodraeth ochr yn ochr â data economaidd a gwybodaeth arall yn ogystal ag ystyriaethau polisi.

120. Mae’r Llywodraeth yn gofyn i LEPs yn Lloegr ac ALl (Cymru a’r Alban) chwarae rhan flaenllaw mewn datblygu a chyd-drefnu atebion lleol ar gyfer eu hardaloedd o ran darparu gwybodaeth i’r Llywodraeth a fydd yn helpu i lywio datblygiad Map 2014-2020.

121. Yr ydym yn cydnabod bod daearyddiaeth a blaenoriaethau economaidd y DU wedi esblygu yn ystod y saith mlynedd diwethaf, ond, am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff 77 uchod, yr ydym yn cynnig y dylai Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013 lywio datblygiad Map 2014-2020. Gan hynny, mae cwestiynau **E01** ac **E02** isod yn ceisio deall sut mae daearyddiaeth economaidd y lleoedd a gynhwysir yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir cyfredol wedi newid ers datblygu Map 2007-2013, ac mae hyn yn cynnwys dod i ddeall yn well pa wardiau y mae statws Ardal a Gynorthwyir yn llai o flaenoriaeth leol iddynt bellach.

122. Gan hynny, mae cwestiwn **E01** yn gofyn bod LEPs neu grwpiau o LEPs yn Lloegr ac ALl neu grwpiau o ALl (Cymru a’r Alban) y mae ganddynt boblogaeth a gynhwysir yn Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013 ar hyn o bryd, fel y’i diffinnir yn Nhablau 1 i 3 yn Atodiad 1 isod, yn rhestru Wardiau Cyfrifiad 2011 sy’n ffurfio’r Ardaloedd a Gynorthwyir y dymunir eu cael yn lleol. Dylai’r ateb i gwestiwn **E01** gael ei gynnwys ar y daenlen sy’n ffurfio Ffurflen 1, Rhan 2.

123. Dylai'r ardal(oedd) a gynigir gydymffurfio â'r RAG, ac yn arbennig felly yn yr ystyr y dylai'r ardal NUTS3 neu NUTS2 y maent yn gorwedd o'i mewn fodloni unrhyw rai o Feini Prawf 1 i 4 o baragraff 168 o'r RAG. Dylid nodi'n arbennig fod angen bodloni unrhyw ofynion parthed lleiafswm poblogaeth – fel arfer 100,000 o bobl. Fodd bynnag, mae Meini Prawf 2 a 3 yn cynnig y cyfle i fod yn gymwys i anfon ateb dros ardaloedd cyffiniol sydd â llai o boblogaeth na hynny.

124. Mae'r ardaloedd NUTS3 yn Lloegr a'r Alban nad ydynt yn bodloni'r un o'r meini prawf hyn wedi'u nodi isod yn Nhabl 9.1. Byddai angen gwneud cais Maen Prawf 5 ar gyfer wardiau sy'n gorwedd o fewn yr ardaloedd NUTS3 a restrir yn Nhabl 9.1 iddynt gael eu cynnwys ar y Map Ardaloedd a Gynorthwyir.

125. Ni ddylai cyfanswm poblogaeth y wardiau a gynhwysir mewn atebion i gwestiwn **E01** fod yn fwy nag 80% o faint poblogaeth yr LEP yn Lloegr neu'r ALI (Cymru a'r Alban) ar gyfer 2007-2013, fel y'i nodir yn Nhablau 1-3 o Atodiad 1 i'r ddogfen ymgynghori. Dylid codi poblogaethau'r wardiau o gyfrifiad 2011 y DU. Mae poblogaethau wardiau cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru a Lloegr wedi'u cynnwys ar y daenlen yn Ffurflen 1, Rhan 2, a dylid defnyddio hyn wrth ateb cwestiwn E01. Bydd poblogaethau cyfrifiad 2011 ar gyfer yr ardaloedd allbwn ar gael ar gyfer yr Alban o 15 Awst 2013 ymlaen. Yn fuan ar ôl y dyddiad hwn, bydd BIS yn cyhoeddi poblogaethau'r wardiau LAU2 2011 ar gyfer yr Alban ar sail y gyfatebiaeth orau posibl rhwng yr ardaloedd allbwn a ffiniau'r wardiau. Tan hynny, awgrymir y dylid seilio unrhyw waith cynllunio y mae awdurdodau lleol yr Alban yn ei wneud mewn perthynas â'r atebion i gwestiynau E01 ac E02 ar yr Amcanestyniadau canol-blwyddyn 2011 y mae Llywodraeth yr Alban yn eu darparu ar gyfer wardiau y LAU2[12]. Mae'r rhain ar gael ar wefan Llywodraeth yr Alban, sef http://www.scotland.gov.uk/Topics/Government/State-Aid/RegionalAid/AAConsultation.

126. Awgrymir bod ymarfer mapio yn allweddol i ddethol y wardiau hyn, ac ar gyfer y rheiny yng nghwestiwn **E02** isod.

127. Mae cwestiwn **E02** yn gofyn bod LEPs (yn Lloegr) neu ALI (yng Nghymru a'r Alban) y mae ganddynt boblogaeth a gynhwysir yn Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013 yn cyflwyno rhestr o wardiau 2011 yn ogystal â'r rheiny a restrir yn **E01** uchod. Ni ddylai'r boblogaeth a gynhwysir o'r wardiau hyn, wedi'i hychwanegu at yr hyn a restrir yn **E01** uchod, fod yn fwy na 100% o boblogaeth yr LEPs neu'r ALI a gynhwysir yn Ardaloedd 2007-2013 fel y'i dangosir yn Atodiad 1, Tablau 1-3, o'r ddogfen ymgynghori. Wrth ateb y cwestiwn hwn, ni ddylech gynnwys wardiau os ydynt yn gorwedd o fewn unrhyw un o'r ardaloedd NUTS3 a restrir yn Nhabl 9.1 yn y ddogfen ymgynghori; byddai angen gwneud cais Maen Prawf 5 ar gyfer y cyfryw wardiau iddynt gael eu cynnwys ar y Map Ardaloedd a Gynorthwyir. Dylai'r ateb i gwestiwn **E02** gael ei gynnwys ar y daenlen sy'n ffurfio Ffurflen 1, Rhan 2.

128. Dylai'r LEPs perthnasol yn Lloegr a'r ALI perthnasol (Cymru a'r Alban) anfon dau fap sy'n dangos hyd a lled yr Ardaloedd a Gynorthwyir arfaethedig hyn – un ar gyfer **E01**, ac un arall ar gyfer **E02**. Byddai'n well gan BIS petaent yn dod i law ar fformat

[12] Cynhyrchwyd y rhain ar sail y gyfatebiaeth orau gan ddefnyddio amcanestyniadau'r parthau data o ran y boblogaeth. Fodd bynnag, dylid nodi bod gan y parthau data gyfatebiaeth o 88.7% â'r wardiau LAU2. Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canlyniadau hyn, a dylai data Cyfrifiad 2011 fod yn sail i'r atebion i gwestiynau E01 ac E02.

JPEG wedi'u hanfon gydag unrhyw ffeil GIS a ddefnyddiwyd i'w datblygu, a gorau i gyd petai honno'n ffeil MapInfo .TAB neu'n ESRI Shapefile. Awgrymir defnyddio'r ymarfer mapio hwn yn fodd i asesu dosbarthiadau gofodol wardiau wrth ddatblygu'r rhestri ar gyfer cwestiynau **E01** ac **E02**.

129. Y gobaith yw bod cwestiynau **E01** ac **E02** yn helpu'r lleoedd hynny sydd â phoblogaeth a gynhwysir ar hyn o bryd i drefnu blaenoriaethau datblygu economaidd lleol yn ofodol. Yn Lloegr, dylai'r gwaith hwn gyd-fynd â datblygu Cynlluniau Economaidd Strategol LEPs. Mae'r Llywodraeth yn croesawu atebion i'r cwestiynau hyn fel ystyriaethau o safbwynt lleol, ac ar raddfa leol, parthed defnyddio Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013 i lywio datblygiad Map 2014-2020. Dylai cynnwys y wardiau a amlygir yn **E02** ar y Map fod yn llai o flaenoriaeth leol na chynnwys y wardiau a restrir yn **E01**. Bydd y wybodaeth leol hon yn ddefnyddiol pan fydd BIS a Llywodraethau Cymru a'r Alban yn cynnal ymarferion tebyg i bennu'r lleoedd y dylid eu cynnwys ar Fap 2014-2020.

130. O ran cyflwyno Map derbyniol i'r Comisiwn, gwell fyddai sicrhau nad yw'r detholiad wardiau a nodir yn yr atebion i gwestiynau **E01** ac **E02** yn ffurfio siâp 'toesen' â chanol gwag.

131. Os nad yw'r LEP(s) (yn Lloegr) neu'r ALl (Cymru a'r Alban) yr ydych yn ateb ar eu rhan yn cynnwys digon o boblogaeth o dan gwestiwn **E01** neu **E02** i allu ffurfio ardal gyffiniol sengl â 100,000 o boblogaeth, dylid cynnig ardal â llai na 100,000 o boblogaeth. Nid yw hyn ond yn gymwys i'r ardal gyffiniol gyntaf â phoblogaeth wedi'i chynnwys mewn Ardal a Gynorthwyir a gynigir gan LEP (yn Lloegr) neu ALl (Cymru a'r Alban).

132. Mae'r atebion i gwestiynau **E01** ac **E02** yn ffurfio awgrymiadau i'r Llywodraeth. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau ynglŷn â maint y boblogaeth a gynhwysir y bydd unrhyw LEP neu awdurdod lleol yn ei gael. Nid oes gwarant y bydd unrhyw ardaloedd penodol a gynigir i'w cynnwys o bosibl mewn Ardal a Gynorthwyir yn cael eu cynnwys ar Fap Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020.

133. Mae cwestiwn **E03** yn gofyn i LEPs perthnasol (yn Lloegr) neu ALl perthnasol (Cymru a'r Alban) roi eu rhesymau dros ddewis y wardiau a gynhwysir yn yr atebion i gwestiynau **E01** ac **E02**. Nid oes angen i'r ateb gyfiawnhau pob un ward a ddewisir, ond dylai rhoi ystyriaeth strategol i'r cyfleoedd economaidd a gynigir gan y wardiau hyn a'r manteision i'r economi lleol o ddyfarnu statws Ardal a Gynorthwyir yno, gan gynnwys cyfeiriadau at oresgyn anghenion economaidd drwy ddiogelu, uwchsgilio neu greu swyddi. Gallai fod yn ddefnyddiol tynnu sylw at ychydig o fuddsoddiadau o bwys y gellid eu cynnal â chymorth rhanbarthol a gweithgareddau economaidd a glustnodir ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol. Wrth ddynodi cyfleoedd economaidd, mae'n debyg y bydd cyfeiriadau at sectorau diwydiannol, busnesau a safleoedd datblygu allweddol yn cael eu cynnwys. Dylid cyfeirio at gynlluniau datblygu economaidd ar gyfer yr ardal, yn ogystal â manteision bod â statws Ardal a Gynorthwyir ar hyn o bryd.

134. Ni fydd ardaloedd LEP (yn Lloegr) ac ardaloedd ALl (Cymru a'r Alban) sydd heb boblogaeth wedi'i chynnwys mewn Ardal a Gynorthwyir yn 2007-2013 yn gallu darparu ateb i gwestiynau **E01**, **E02** ac **E03**. Fodd bynnag, byddant, fel yr ardaloedd a gynhwysir ar hyn o bryd, yn gallu darparu ateb i Gwestiwn **E04**, sy'n gofyn bod LEP neu grwpiau o LEPs (yn Lloegr) ac ALl neu grwpiau o ALl (yng Nghyymru a'r Alban) yn cyflwyno rhestr o wardiau lle mae cyfleoedd economaidd allweddol - e.e ffatrioedd neu

ddatblygiadau masnachol pwysig - nad ydynt wedi'u cwmpasu gan yr atebion I **E01** ac **E02** uchod. Dylai'r cyfleoedd economaidd hyn gael eu rhannu yn ôl blaenoriaeth yn grwpiau o ddeg ward Cyfrifiad 2011. Nid yw'r Llywodraeth yn gofyn am drefnu wardiau unigol yn ôl blaenoriaeth o fewn y grwpiau hyn o ddeg. Nid oes angen i'r wardiau a gyflwynir ffurfio ardal gyffiniol unigol, ond yn ddelfrydol dylent ffurfio craidd y gall y Llywodraeth seilio ardal gyffiniol arno. Dylid nodi Enw'r Ward a Chod y Ward (ar sail ffiniau wardiau Cyfrifiad 2011).

135. Fel canllaw, dylai unrhyw gyfleoedd a restrir fod â'rpotensial i greu neu ddiogelu o leiaf 30 o swyddi. Mae'r 30 o swyddi yn cyfeirio at y safle unigol, nid at y cyfanswm i'r ward. Mae ansawdd y swyddi hyn yn ystyriaeth hefyd. Os ydych wedi rhestru safleoedd datblygu, darparwch dystiolaeth i brofi bod modd eu cyflawni o fewn oes y Map e.e. bod ganddynt ganiatâd cynllunio amlinellol. Os rhestrir safleoedd datblygu, cynghorir y dylai'r rhain fod wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol o leiaf. Ni ddylid cyflwyno wardiau mewn ateb i'r cwestiwn hwn os byddant yn gorwedd o fewn unrhyw rai o'r ardaloedd NUTS3 a restrir yn Nhabl 9.1 yn y ddogfen ymgynghori, lle mae ceisiadau Maen Prawf 5 yn ofynnol. Dylai'r ateb i gwestiwn **E04** gael ei gynnwys ar y daenlen sy'n ffurfio Ffurflen 1, Rhan 2.

136. Wedyn, mae cwestiwn **E05** yn gofyn i chi roi sylwadau strategol ynglŷn â'r modd y mae'r atebion i gwestiwn **E04** yn cynnig y potensial i gyfeirio cymorth rhanbarthol yn effeithiol i gynnal cydgyfeiriant economaidd rhwng ardaloedd tlotach ac ardaloedd cyfoethocach yn y DU.

137. Dylai'r ateb i **E05** gynnwys tystiolaeth, gan gysylltu'r cyfleoedd a restrir â pholisi economaidd a strategaeth fuddsoddi ar gyfer yr ardal, gan gynnwys, yn Lloegr, y Cynlluniau Economaidd Strategol LEP sy'n cael eu datblygu. Dylai'r ateb i **E05** roi ystyriaeth strategol i'r manteision i'r economi lleol o ddyfarniad posibl statws Ardal a Gynorthwyir yno.

138. Nid yw cwestiynau **E01** i **E05** yn sail i system gwneud cynigion am le mewn Ardal a Gynorthwyir. Mae senarios megis y canlynol yn bosibl:

- Ardal yn cael dosbarthiad gwahanol o boblogaeth wedi'i chynnwys mewn Ardal i'r hyn a awgrymwyd i'r Llywodraeth

- LEP (yn Lloegr) neu ALl (Cymru a'r Alban) heb anfon ateb i'r ymgynghoriad hwn, ond yn cael eu cynnwys mewn Ardal a Gynorthwyir

<u>Ceisiadau Maen Prawf 5 posibl</u>

139. Mae'r cwestiwn olaf ar **Ffurflen 1** – cwestiwn **E06** – yn cyfeirio at Faen Prawf 5 o baragraff 168 o'r RAG. Mae Maen Prawf 5 o baragraff 168 o'r Canllawiau yn ffordd bosibl i ennill statws Ardal a Gynorthwyir ar gyfer ardaloedd nad oes modd iddynt ddod yn gymwys o dan Feini Prawf 1 i 4 o baragraff 168 o'r Canllawiau.

*Maen Prawf 5: ardaloedd cyffiniol ag o leiaf 50,000 o drigolion sy'n profi newidiadau strwythurol mawr neu ddirywiad cymharol difrifol, os nad yw'r cyfryw ardaloedd o fewn rhanbarthau NUTS3 neu ardaloedd cyffiniol sy'n cyflawni'r*

*amodau i gael eu henwi'n ardaloedd rhagddiffiniedig neu o dan Feini Prawf 1 i 4.*

140. Mae troednodiadau 71 a 72 o'r RAG yn cyfeirio at Faen Prawf 5. Nid yw troednodyn 71 yn berthnasol i'r DU. Mae troednodyn 72 yn nodi'r canlynol:

*Er mwyn cymhwyso Maen Prawf 5, rhaid i'r Aelod-wladwriaeth ddangos bod yr amodau cymwys yn cael eu cyflawni drwy gymharu'r ardaloedd dan sylw â sefyllfa ardaloedd eraill yn yr un Aelod-wladwriaeth neu mewn Aelod-wladwriaethau eraill ar sail dangosyddion economaidd-gymdeithasol sy'n ywneud ag ystadgau busnes strwythurol, marchnadoedd llafur, cyfrifon cartref, addysg, neu ddangosyddion tebyg eraill. I'r diben hwn, caiff yr Aelod-wladwriaeth gyfeirio at ddata a ddarperir gan ei swyddfa ystadegau wladol neu ffynonellau cydnabyddedig eraill*.

141. Yn ôl y RAG, ni cheir gwneud ceisiadau Maen Prawf 5 ond ar gyfer lleoedd o fewn yr ardaloedd NUTS3 a nodir yn Nhabl 9.1. Gan hynny, mae'r cwestiwn hwn wedi'i gyfyngu i LEPs (yn Lloegr) ac ALl (Yr Alban) sy'n cynnwys lleoedd ar y rhestr hon. Nid oes lleoedd yng Nghymru y byddai angen iddynt wneud ceisiadau Maen Prawf 5 er mwyn cael statws Ardal a Gynorthwyir. O dan y RAG, ni cheir gwneud ceisiadau Maen Prawf 5 ar gyfer rhannau o'r DU sydd heb eu rhestru yn Nhabl 9.1.

142. Mae ceisiadau Maen Prawf 5 ar gael fel bod modd i lywodraethau aelod-wladwriaethau roi gwybod i'r Comisiwn am ddirywio economaidd lleol o fewn ardaloedd NUTS3 na ddisgwylid iddynt gynnwys Ardaloedd a Gynorthwyir fel arall. Gan fod dyfarnu statws Ardal a Gynorthwyir o dan Faen Prawf 5 yn gofyn cais eithriadol i'r Comisiwn, mae'n awgrymu bod y Comisiwn yn gweld y cyfryw achosion yn rhai neilltuol sy'n gofyn sylw manwl ychwanegol.

143. Os byddwch yn dymuno i Lywodraeth y DU ystyried gwneud cais Maen Prawf 5 ar gyfer unrhyw rannau o'r ardaloedd NUTS3 a restrir yn Nhabl 9.1, dylech nodi pam y mae'r ardal a enwebir ar ganol newidiadau strwythurol mawr neu'n dirywio'n ddifrifol mewn cymhariaeth ag ardaloedd eraill yn y DU neu mewn Aelod-wladwriaethau eraill. Dylai unrhyw achos o blaid eich ardal a gyflwynir i'r Llywodraeth gynnwys sylwadau ynghylch anfantais economaidd cynharol yr ardal a'r potensial i ddefnyddio cymorth rhanbarthol i gynnal yr economi lleol. Dylai atebwyr nodi bod Maen Prawf 5 yn ceisio ardaloedd cyffiniol sy'n cynnwys o leiaf 50,000 o drigolion, ac y dylent i gyd fyw o fewn yr ardaloedd NUTS3 a restrir yn Nhabl 9.1. Os bydd LEP (yn Lloegr) neu ALl (Yr Alban) yn ystyried gofyn i Lywodraeth y DU wneud cais Maen Prawf 5 dros ran o'u hardal, dylent ddod yn gyfarwydd â'r holl gyfarwyddiadau sy'n ymwneud â pharagraff 168 o'r RAG.

Tabl 9.1 – Ardaloedd NUTS3 yn Lloegr a'r Alban y byddai angen gwneud ceisiadau Maen Prawf 5 i'r Comisiwn cyn y gellid dynodi statws Ardaloedd a Gynorthwyir ynddynt.

| Enw NUTS3 | Cod NUTS3 |
|---|---|
| Warrington | UKD61 |
| Cheshire East | UKD62 |
| Cheshire West and Chester | UKD63 |
| Leicester | UKF21 |
| Leicestershire CC and Rutland | UKF22 |

| Enw NUTS3 | Cod NUTS3 |
|---|---|
| West Northamptonshire | UKF24 |
| Hertfordshire | UKH23 |
| Berkshire | UKJ11 |
| Milton Keynes | UKJ12 |
| Buckinghamshire CC | UKJ13 |
| Oxfordshire | UKJ14 |
| Brighton and Hove | UKJ21 |
| Surrey | UKJ23 |
| West Sussex | UKJ24 |
| Portsmouth | UKJ31 |
| Southampton | UKJ32 |
| Hampshire CC | UKJ33 |
| Bristol, City of | UKK11 |
| Bath and North East Somerset | UKK12 |
| Gloucestershire | UKK13 |
| Swindon | UKK14 |
| | |
| Edinburgh, City of | UKM25 |
| West Lothian | UKM28 |
| Aberdeen City and Aberdeen | UKM50 |

144. Mae cwestiwn **E06** yn gofyn am drosolwg cyffredinol cryno sy’n rhoi syniad da i BIS o’r rhesymau posibl dros wneud cais Maen Prawf 5 mewn achos penodol. Byddwn yn casglu rhagor o wybodaeth am yr achosion Maen Prawf 5 posibl hyn yng nghymorthfeydd yr LEP (ynLloegr) neu’r ALI (yr Alban) yn yr hydref. Wedyn bydd Gweinidogion yn penderfynu ar y lleoedd y dylid gwneud cais Maen Prawf 5 drostynt i’r Comisiwn Ewropeaidd ar ôl Rhan 2 o’r ymgynghoriad, os gwneir ceisiadau o gwbl. Bydd Rhan 2 o’r ymgynghoriad – y Map drafft – yn dynodi unrhyw achosion Maen Prawf 5 y mae Llywodraeth y DU yn eu hystyried ar yr adeg honno.

145. Mae timau lleol BIS yn Lloegr yn gallu cynnig cymorth cyfyngedig i LEPs wrth iddynt lunio’r atebion i gwestiynau **E01** i **E06**. Bydd hyn ar ffurf cynghori LEPs ynghylch rhoi blaenoriaeth strategol i gyfleoedd economaidd lleol er mwyn cynnal ardaloedd dan anfantais economaidd. Bydd Llywodraethau Cymru a’r Alban yn darparu cyngor tebyg ar gyfer eu hawdurdodau lleol hwythau.

Sylw Terfynol

146. Mae BIS, yn gweithio ar y cyd â Llywodraethau Cymru a’r Alban, yn diolch i chi am eich diddordeb ac am unrhyw atebion a gyflwynir cyn dydd Llun 30 Medi 2013.

# 10. Ffurflen Adrodd 2 – y ffurflen ar gyfer ymatebwyr eraill

147. Mae’r adran hon yn cynnwys canllawiau ynglŷn â llenwi **Ffurflen 2**, y ffurflen ar gyfer unigolion a chyrff heblaw Partneriaethau Menter Leol (LEPs) yn Lloegr ac Awdurdodau Lleol (ALl) yng Nghymru a’r Alban. Os ydych yn cynrychioli LEP yn Lloegr neu ALl yng Nghymru neu’r Alban, gwelwch y canllawiau yn Adran 9 uchod.

148. Mae’r Llywodraeth yn annog cynhyrchu atebion lleol cyd-drefnus, felly, yn hytrach nag anfon **Ffurflen 2** yn ôl, efallai y byddai unigolion a chyrff yn barod i ystyried, yn lle hynny neu’n ogystal â hynny, cysylltu â’u LEP lleol yn Lloegr neu’u ALl yng Nghymru a’r Alban er mwyn cyfrannu i’w hateb hwythau. Mae manylion ynghylch gwneud hyn i’w cael ym mharagraff 97 uchod.

### Adran A – Rhyddid Gwybodaeth

149. Dylai’r atebwyr fod yn ymwybodol bod BIS a Llywodraethau Cymru a’r Alban yn ddarostyngedig i ofynion cyfreithiol parthed rhyddhau gwybodaeth a ddelir ganddynt, gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). O dan rai amgylchiadau, gall y wybodaeth a ddarperir fod yn esempt rhag ei rhyddhau (gan gynnwys o dan adran 40, 41 neu 43 o’r FOIA), a bydd yr awdurdod cyhoeddus perthnasol, yn ddarostyngedig i’r gofynion cyfreithiol hynny, yn gofalu am barchu cyfrinachedd pan fydd ymgeiswyr wedi gofyn i ni wneud hynny. Er mwyn helpu’r awdurdod cyhoeddus perthnasol i drin ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn effeithlon, dad-diciwch y blwch Rhyddid Gwybodaeth gwyrdd wrth y cwestiynau nad ydych yn dymuno i ni ryddhau’ch ateb iddynt os bydd cais Rhyddid Gwybodaeth yn dod i law. Os na fyddwch yn dad-dicio blwch Rhyddid Gwybodaeth gwyrdd wrth gwestiwn, byddwn yn cymryd eich bod yn caniatáu rhyddhau’r wybodaeth o dan yr FOIA.

150. Fel arall, cewch ddad-dicio’r blwch Rhyddid Gwybodaeth gwyrdd sy’n cyfeirio at yr holl ffurflen os nad ydych yn dymuno i ni ryddhau’r un o’ch atebion os daw cais Rhyddid Gwybodaeth i law.

151. Nid yw dad-dicio blwch yn gwarantu na fydd y wybodaeth yn cael ei rhyddhau. Nodwch eich rhesymau dros ddymuno cael eich eithrio ym Mlwch A02 , gan gynnwys eich rhesymau dros farnu bod y wybodaeth yn wybodaeth esempt fel y’i diffinnir yn yr FOIA (er enghraifft, oherwydd y byddai rhyddhau’r wybodaeth yn niweidiol i fuddiannau masnachol yn eich ardal).

152. Dylech nodi, fodd bynnag, mai’r awdurdod cyhoeddus perthnasol sy’n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch rhyddhau gwybodaeth neu beidio, gan ystyried gofynion cyfreithiol yr FOIA ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. Mae rhai esemptiadau FOIA yn gofyn dadansoddiad o ystyriaethau budd y cyhoedd. Yn aml, cyn gwneud penderfyniad, mae angen i awdurdod cyhoeddus bwyso ffactorau gwrthwynebol yn erbyn ei gilydd, ar sail amgylchiadau penodol yr achos. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch yr FOIA i’w gael ar: http://www.ico.gov.uk/for_organisations/freedom_of_information/guide.aspx

### Adran B – Manylion Personol

153. Rhowch y manylion y gofynnir amdanynt ar y ffurflen. Mae croeso i chi gysylltu ag

AssistedAreasConsultation@bis.gsi.gov.uk os bydd gennych unrhyw ymholiadau.

**Adran C – Cyd-drefnu Atebion**

154. Mae **Ffurflen 2** yn darparu lle (Blychau C01, C02 ac E02) ar gyfer gwybodaeth yr ydym yn gobeithio y bydd yn hybu atebion cyd-drefnus i'r rhan gyntaf hon o'r ymgynghoriad.

**C01**: Os oes unrhyw gyrff neu bersonau eraill wedi cyfrannu at yr ateb hwn, rhestrwch nhw yma.

**C02**: A gyflwynwyd unrhyw bryderon i'r corff neu'r unigolyn sy'n cydlynu'r ffurflen hon, nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr atebion i Adran D neu E, ond yr ydych yn dymuno rhoi gwybod i BIS amdanynt? Nodwch y corff neu'r cyrff sy'n arddel y safbwynt hwn lle bo modd.

**Adran D – Egwyddorion Cyffredin Arfaethedig ar gyfer llunio Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020**

155. Nodir nifer o egwyddorion cyffredin isod y mae'r DU yn bwriadu eu defnyddio'n sylfaen i lunio Mapiau Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020. Mae'r tebygolrwydd o gael cymeradwyaeth amserol gan y Comisiwn yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu'r Map. Ymgynghorir ynglŷn â'r egwyddorion hyn fel rhan o Ran 1 o'r ymgynghoriad hwn. Er y gallai'r egwyddorion hyn newid yn y dyfodol, dylai'r atebwyr eu defnyddio fel canllaw wrth lenwi'r adran gwybodaeth leol a blaenoriaethau yn yr ymgynghoriad hwn – cwestiynau **E01** i **E05**. Bydd Rhan 2 o'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle i'r atebwyr gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r Map drafft, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau a wneir i'r egwyddorion cyffredin ar ôl Rhan 1 o'r ymgynghoriad.

156. **Egwyddor 1**: **Dylai Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU adlewyrchu cyfleoedd i gynnal busnesau â chymorth rhanbarthol mewn lleoliadau a fydd yn cynnal economïau lleoedd dan anfantais economaidd.** (gweler paragraff 76 uchod)

157. **Egwyddor 2: Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio cyfuniad o dystiolaeth a gwybodaeth economaidd feintiol ac ansoddol (megis atebion i'r ymgynghoriad) ac ystyriaethau polisi economaidd perthnasol i bennu anghenion a chyfleoedd economaidd cymharol lle o ran y potensial i ddefnyddio cymorth rhanbarthol i gefnogi amcanion cydgyfeiriant economaidd.** (gweler paragraff 16 uchod)

158. **Egwyddor 3: O dan ran amgylchiadau, mae'n bosibl mai prif nod penodi rhaid wardiau yn Ardaloedd a Gynorthwyir fyddai cysylltu wardiau eraill sy'n cynnwys y nodweddion a geisir ar gyfer statws Ardal a Gynorthwyir - h.y. cyfleoedd economaidd sylweddol a allai gataleiddio economïau sydd dan anfantais - o fewn poblogaeth gyffiniol sydd dros y lleiafswm angenrheidiol (fel arfer 100,000 o bobl).** (mae lleiafsymiau poblogaeth eraill i'w gweld ym mharagraff 168 o'r RAG)

159. **Egwyddor 4: Dylai Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013 fod yn ystyriaeth**

**o bwys wrth ddatblygu ei olynydd ar gyfer 2014-2020.** (gweler paragraff 77 uchod)

160. **Egwyddor 5: Dylai sicrhau cymhwysedd i gynnal cwmnïau mawr â chymorth rhanbarthol fod yn ystyriaeth wrth lunio Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020 gan fod llai o gyfyngiadau ar y Llywodraeth mewn cysylltiad â chynnal busnesau bach a chanolig â buddsoddiant cyfalaf o dan ffurfiau eraill ar gymorth gwladwriaeth.** (gweler paragraff 45 uchod)

161. **Egwyddor 6: Dylai cynnig i gyrff cyhoeddus y DU yr hyblygrwydd i fuddsoddi cymorth rhanbarthol mewn ehangu a datblygu gweithgynhyrchu yn y DU fod yn nod allweddol wrth ddatblygu'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir.** (gweler paragraffau 43 a 79 uchod)

162. **Egwyddor 7:** (gweler paragraffau 81 i 85 uchod)**: Mae'r mesuryddion angen economaidd y dylid eu defnyddio i lywio datblygiad y Map fel a ganlyn:**

**a) Cyfradd Cyflogaeth Isel**

**b) Cyfradd Sgiliau Isel (lefel 2 ac is)**

**c) Cyfradd Uchel o Hawlwyr Budd-daliadau o Oedran Gweithio**

**d) Twf poblogaeth isel / allfudo net ar ran pobl o oedran gweithio**

**e) Cyfraddau gweithgyngyrchu uchel**

163. **Egwyddor 8** (gweler paragraffau 86 i 89): **Cynigir y caiff angen economaidd cymharol ei ystyried ar ddwy raddfa ofodol:**

**- 1) ar lefel y Bartneriaeth Menter Leol (LEP) yn Lloegr, ac ar lefel yr Awdurdod Lleol (ALl) yng Nghymru a'r Alban; a**

**- 2) ar lefel yr Ardal a Gynorthwyir bosibl neu yn ei wardiau cyfansoddol**

164. Mae ffurflenni ateb yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn sy'n ymwneud â'r wyth egwyddor uchod ar gyfer llunio'r Map: mae **D01** yn gofyn, a ydych yn y bôn yn cefnogi'r egwyddorion ar gyfer llunio Map Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020 a nodir yn 109-116 o'r ddogfen ymgynghori? Os oes unrhyw egwyddorion nad ydych chi'n eu cefnogi, rhowch dystiolaeth i esbonio pam yn **D02**.

165. O dan baragraffau 180 i 182 o'r RAG, mae Aelod-wladwriaethau yn cael dewis peidio â datgelu maint y boblogaeth a gynhwysir ar eu mapiau cymorth rhanbarthol. Maent yn cael ychwanegu'r boblogaeth hon i'w Mapiau wedyn, efallai fel ymateb i gyfleoedd neu anghenion economaidd sy'n codi. Er mwyn defnyddio'r stoc boblogaeth hon wrth gefn i ychwanegu lleoedd i'r Map, nid oes angen tynnu lleoedd o'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir.

166. Mae cwestiwn **D03** yn gofyn: A ydych yn barnu, ar gyfer y wlad yr ydych wedi dewis ateb drosti (Cymru, Lloegr neu'r Alban), y dylid cadw ffigurau poblogaeth 'c' ragddiffiniedig yn ôl er mwyn eu dosbarthu ar Fap 2014-2020 rywdro wedyn? Un o brif fanteision stoc boblogaeth wrth gefn yw bod modd ei defnyddio i ymateb i gyfleoedd

a sioc economaidd a allai godi'n ddiweddarach. Un o'r prif anfanteision yw na fydd y stoc o'r boblogaeth wrth gefn yn effeithiol nes iddo gael ei ychwanegu at y Map, felly dim ond ar gyfer rhan o'r cyfnod 2014-2020 y bydd yn effeithiol. Mae cwestiwn **D04** yn gofyn am y rhesymeg y tu ôl i'ch ateb i **D03**.

**Adran E – Gwybodaeth Leol**

167. Mae ffurflen ateb yr ymgynghoriad yn gofyn nifer o gwestiynau sy'n ceisio hel gwybodaeth leol i gyfrannu i benderfyniad Gweinidogion parthed yr Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU a gynigir i'r Comisiwn. Caiff y wybodaeth leol a ddaw i law ei hystyried gan y Llywodraeth ochr yn ochr â data economaidd a gwybodaeth arall yn ogystal ag ystyriaethau polisi.

168. Mae'r Llywodraeth yn gofyn i LEPs (yn Lloegr) ac ALI (yng Nghymru a'r Alban) chwarae rhan flaenllaw mewn datblygu a chyd-drefnu atebion lleol ar gyfer eu hardaloedd o ran darparu gwybodaeth i'r Llywodraeth a fydd yn helpu i lywio datblygiad Map 2014-2020. Gan hynny, mae eu ffurflen hwythau – **Ffurflen 1** – yn gofyn am set fanylach o atebion yn Adran E nag y mae'r ffurflen hon, **Ffurflen 2**, yn gwneud.

169. Mae'r Llywodraeth yn annog atebwyr heblaw LEPs (yn Lloegr) ac ALI (yng Nghymru a'r Alban) i roi unrhyw wybodaeth economaidd leol i'w LEPs (yn Lloegr) ac ALI (yng Nghymru a'r Alban) er mwyn galluogi darparu ateb cyd-drefnus sengl i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, os na fydd hyn yn bosibl, caiff yr atebwyr eraill ateb cwestiwn **E01**.

170. **E01**: Nodwch unrhyw leoedd yn y DU y credwch y dylent fod yn gymwys ar gyfer statws Ardal a Gynorthwyir yn 2014-2020, gan fod mor fanwl â phosibl. Gellid ystyried y cwestiwn hwn ar raddfeydd gofodol gwahanol – er enghraifft, tref neu ddinas, neu ardaloedd o'u mewn – efallai cymdogaethau neu, yn ddelfrydol, wardiau. Gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol am yr angen a'r cyfleoedd economaidd, rhowch dystiolaeth i ategu'ch dewis o ran eich ymateb. Dylai'r ymateb hwn roi ystyriaeth strategol i ba gyfleoedd economaidd y mae'r lleoedd hyn yn eu cynnig, a'r manteision y byddai statws Ardal a Gynorthwyir yn eu cynnig i'r economi lleol, gan gynnwys cyfeiriad at oresgyn angen economaidd trwy ddiogelu, datblygu sgiliau neu greu swyddi. Hwyrach y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at ambell i fuddsoddiad sylweddol a allai gael eu cynnal gan gymorth rhanbarthol a'r gweithgareddau economaidd a glustnodwyd i'w datblygu yn y dyfodol. Wrth ddynodi cyfleoedd economaidd, mae'n debygol y bydd yna gyfeiriad at y sectorau diwydiannol, busnesau a safleoedd datblygu allweddol. Dylid cyfeirio at gynlluniau datblygu economaidd ar gyfer yr ardal, ynghyd â manteision cael statws Ardal a Gynorthwyir ar hyn o bryd, os yw hynny'n berthnasol.

171. Gofynnir i atebwyr sy'n ateb cwestiwn **E01** ddarparu ateb hefyd i gwestiwn **E02**, sy'n gofyn a yw'r wybodaeth a nodwyd ar Ffurflen 2 wedi cael ei bwydo i'r LEP (yn Lloegr) neu'r ALI (yng Nghymru a'r Alban) ar gyfer y lle(oedd) o dan sylw? (yn Lloegr) (yng Nghymru a'r Alban)

Sylw Terfynol

172. Mae BIS, yn gweithio ar **y c**yd â Llywodraethau Cymru a'r Alb**an,** yn diolch i chi am eich diddordeb ac am unrhyw atebion a roddir cyn Dydd Llun 30 Medi 2013.

## 11. Beth sy’n digwydd nesaf?

173. Bydd y Llywodraeth yn ateb i’r rhan hon o’r ymgynghoriad cyn pen 3 mis ar ôl diwedd yr ymgynghori.

174. Bydd yr atebion i’r rhan hon o’r ymgynghoriad yn llywio datblygiad y Map Ardaloedd a Gynorthwyir drafft a fydd yn gonglfaen i Ran 2 o’r ymgynghori.

175. Hysbysebir Rhan 2 o’r ymgynghori mewn lleoedd sy’n cynnwys gwefan .Gov, gwefan y Rhwydwaith LEPs www.lepnetwork.org.uk, a gwefan y Gymdeithas Llywodraeth Leol www.local.gov.uk. Anfonir llythyrau yn uniongyrchol at h----oll LEPs ac ALl ym Mhrydain Fawr er mwyn gadael iddynt wybod am gychwyn yr ymgynghori.

# Atodiad 1: Cyfansymiau'r Boblogaeth yn 2007-2013

Yn y tablau isod, rhestrir yr ardaloedd ALI yng Nghymru a'r Alban a'r ardaloedd LEP yn Lloegr yr oedd ganddynt boblogaeth 'c' heb ei rhagddiffinio wedi'i chynnwys yn 2007-2013. Mae'r cyfansymiau poblogaeth wedi'u codi a'u cyfrif o'r cyfansymiau y rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn amdanynt ar adeg cyflwyno Map 2007-2013. Barnwyd mai defnyddio'r poblogaethau wardiau hynny i greu'r cyfansymiau isod oedd y dull tecach, gan nad yw poblogaethau cyfrifiad 2011 ar gael ar gyfer y ffiniau wardiau CAS 2003 a ddefnyddiwyd yng nghyflwyniad 2007-2013 i'r Comisiwn.

Mae'r nodiadau o dan y tablau perthnasol yn tynnu sylw at ardaloedd yr oedd ganddynt boblogaeth wedi'i rhagddiffinio wedi'i chynnwys yn 2007-2013. Os na chyfeirir at ALI (yng Nghymru a'r Alban) neu ardal LEP (yn Lloegr) yn yr atodiad hwn, ni enwyd unrhyw Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013 o fewn ei ffiniau.

**Atodiad 1, Tabl 1 – Yr Alban**

| Ardal Awdurdod Lleol | Poblogaeth AA 2007-2013 (personau) | 80% o Boblogaeth AA 2007-2013 (personau) |
|---|---|---|
| CLACKMANNANSHIRE | 23,960 | 19,168 |
| DUNDEE CITY | 114,677 | 91,742 |
| EAST AYRSHIRE | 75,957 | 60,766 |
| EAST DUNBARTONSHIRE | 19,136 | 15,309 |
| FALKIRK | 60,513 | 48,410 |
| FIFE | 171,666 | 137,333 |
| GLASGOW CITY | 299,560 | 239,648 |
| HIGHLANDS AND ISLANDS (gweler nodyn isod) | 220,500 | 176,400 |
| INVERCLYDE | 74,422 | 59,538 |
| NORTH AYRSHIRE | 100,042 | 80,034 |
| NORTH LANARKSHIRE | 257,020 | 205,616 |
| RENFREWSHIRE | 83,534 | 66,827 |
| SOUTH AYRSHIRE | 34,369 | 27,495 |
| SOUTH LANARKSHIRE | 118,235 | 94,588 |
| STIRLING | 19,780 | 15,824 |
| WEST DUNBARTONSHIRE | 59,914 | 47,931 |
| Cyfanswm | 1,733,285 | |

Scotland - Yr Alban

Nodyn 1: Fel Rhanbarth Effaith Ystadegol, yr oedd 369,400 o boblogaeth yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd wedi'u cynnwys yn 2007-2013. Bellach, ar gyfer 2014-2020, mae ardaloedd NUTS3 yn UKM61 Caithness & Sutherland a Ross & Cromarty; UKM63 Lochaber, Skye & Lochalsh, Arran & Cumbrae ac Argyll & Bute; ac UKM64 Eilean Siar (Ynysoedd y Gorllewin) wedi'u rhagddiffinio gan y Comisiwn Ewropeaidd fel ardaloedd 'c' prin eu poblogaeth. Mewn set ddata poblogaeth Eurostat – poblogaeth gyfartalog flynyddol Cronos 2005 – a ddefnyddiwyd i

ddatblygu Map 2007-2013, mae gan y rhannau o'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd nad ydynt bellach wedi'u rhagddiffinio gan y Comisiwn boblogaeth o 220,500. Defnyddir y ffigur hwn yn y tabl uchod.

**Atodiad 1, Tabl 2 - Cymru**

| Ardal Awdurdod Lleol | Poblogaeth AA 2007-2013 (personau) | 80% o Boblogaeth AA 2007-2013 (personau) |
|---|---|---|
| CAERDYDD/CARDIFF | 30,837 | 24,670 |
| CASNEWYDD/NEWPORT | 40,838 | 32,670 |
| POWYS/POWYS | 8,015 | 6,412 |
| SIR Y FFLINT/FLINTSHIRE | 97,745 | 78,196 |
| Cyfanswm | 177,435 | |

Nodyn 2: ni chynhwysir Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y tabl uchod gan fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi'u henwi'n ardal 'a' eto ar gyfer 2014-2020. Mae cyflwyniad y DU ar gyfer Map 2007-2013 yn nodi poblogaeth yr ardal fel 1,854,674.

**Atodiad 1, Tabl 3 – Lloegr**

| Ardal LEP | Poblogaeth AA 2007-2013 (personau) | 80% o Boblogaeth AA 2007-2013 (personau) |
|---|---|---|
| Black Country | 839,160 | 671,328 |
| Buckinghamshire Thames Valley | 0 | 0 |
| Cheshire and Warrington | 0 | 0 |
| Coast to Capital | 0 | 0 |
| Cornwall and the Isles of Scilly | 0 | 0 |
| Coventry and Warwickshire | 252,011 | 201,609 |
| Cumbria | 197,149 | 157,719 |
| Derby, Derbyshire, Nottingham and Nottinghamshire | 372,315 | 297,852 |
| Dorset | 0 | 0 |
| Enterprise M3 | 0 | 0 |
| Gloucestershire | 0 | 0 |
| Greater Birmingham and Solihull | 559,924 | 447,939 |
| Greater Cambridge & Greater Peterborough | 0 | 0 |
| Greater Lincolnshire | 53,345 | 42,676 |
| Greater Manchester | 629,285 | 503,428 |
| Heart of the South West | 157,380 | 125,904 |
| Hertfordshire | 0 | 0 |
| Humber | 161,115 | 128,892 |
| Lancashire | 187,071 | 149,657 |
| Leeds City Region | 233,496 | 186,797 |
| Leicester and Leicestershire | 0 | 0 |
| Liverpool City Region | 1,093,376 | 874,701 |
| London | 126,159 | 100,927 |

| Ardal LEP | Poblogaeth AA 2007-2013 (personau) | 80% o Boblogaeth AA 2007-2013 (personau) |
|---|---|---|
| New Anglia | 0 | 0 |
| North Eastern | 1,189,350 | 951,480 |
| Northamptonshire | 0 | 0 |
| Oxfordshire | 0 | 0 |
| Sheffield City Region | 978,057 | 782,446 |
| Solent | 0 | 0 |
| South East | 142,748 | 114,198 |
| South East Midlands | 140,994 | 112,795 |
| Stoke-on-Trent and Staffordshire | 266,640 | 213,312 |
| Swindon and Wiltshire | 0 | 0 |
| Tees Valley | 420,432 | 336,346 |
| Thames Valley Berkshire | 0 | 0 |
| The Marches | 0 | 0 |
| West of England | 0 | 0 |
| Worcestershire | 3,463 | 2,770 |
| York and North Yorkshire | 20,474 | 16,379 |
| Cyfanswm | 8,023,944 | |

Nodyn 3: Dynodwyd NUTS2 Cernyw ac Ynysoedd Sili yn ardal 'a' gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2007-2013. Mae cyflwyniad y DU ar gyfer Map 2007-2013 yn nodi poblogaeth yr ardal fel 502,077. Enwyd Cernyw yn ardal 'a' eto ar gyfer 2014-2020.

Nodyn 4: Pan fydd LEPs yn Lloegr yn gorgyffwrdd â'i gilydd, dosrennir y boblogaeth a gynhwysir yn y gorgyffyrddiad hwn yn gyfartal rhwng yr LEPs gorgyffyrddol.

Mae Gorchymyn Ardaloedd a Gynorthwyir 2007 yn rhestri holl Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013. Nodwch mai ffiniau 2003 sydd gan y wardiau a restrir, ac y bydd yr ardaloedd 'c' sydd heb eu rhagddiffinio ar Fap 2014-2020 yn cael eu ffurfio o wardiau cyfrifiad 2011: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110207093142/legislation.gov.uk/uksi/2007/107/pdfs/uksi_20070107_en.pdf

## Atodiad 2: Cyfrinachedd a Diogelu Data

176. Mae'n bosibl y caiff gwybodaeth a ddarperir wrth ateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, ei chyhoeddi, ei rhyddhau i bartïon eraill, neu'i datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (y rhain, yn bennaf, yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os byddwch yn dymuno bod gwybodaeth a ddarperir gennych, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol, o dan yr FOIA, y mae rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â hi ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau hyder.

177. A chofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi esbonio i ni pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a gawsom gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn cymryd eich esboniad i lawn ystyriaeth, ond nid oes modd i ni ddweud i sicrwydd y bydd cyfrinachedd yn cael ei gynnal waeth beth fydd yr amgylchiadau. Ni fernir bod ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo ei hun, yn rhwymol ar yr Adran.

# Atodiad 3: Egwyddorion ymgynghori'r Llywodraeth

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymwneud â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf

## Sylwadau neu gwynion ynglŷn â'r modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn

Os byddwch yn dymuno rhoi sylwadau neu gyflwyno cwyn ynglŷn â'r modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, mae croeso i chi ysgrifennu at:

John Conway,
Cyd-drefnydd Ymgynghori BIS,
1 Victoria Street,
Llundain
SW1H 0ET

Cewch ffonio John ar 020 7215 6402
neu anfon e-bost at: john.conway@bis.gsi.gov.uk

Fodd bynnag, os byddwch yn dymuno gwneud sylwadau ynglŷn â chynigion polisi penodol, dylech gysylltu â'r tîm polisi perthnasol (gweler adran 3).

## Atodiad 4: Rhestr o'r Unigolion/Cyrff yr ymgynghorwyd â hwy

Anfonir llythyr at y canlynol i dynnu sylw cyrff at yr ymgynghoriad hwn:

* Pob awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

* Pob Partneriaeth Menter Leol (LEP) yn Lloegr

* Nifer o gyrff cenedlaethol sydd â ddiddordeb. Mae'r cyrff hyn fel a ganlyn:

- Siambrau Masnach Prydain (BCC) / Rhwydwaith LEP
- Cymdeithas Prif Swyddogion Datblygu Economaidd (CEDOS)
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- EEF – y Corff Gweithgynhyrchwyr (Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianegol)
- Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)
- Cynghrair Cymunedau Diwydiannol (ICA)
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD)
- Sefydliad Datblygu Economaidd (IED)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
- Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol (RTPI)
- Cymdeithas Cynllunio Tref a Gwlad (TCPA)
- Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)

© Hawlfraint y Goron 2013

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl ar unrhyw fformat neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence, neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifdy Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael gan www.gov.uk/government/consultations/assisted-areas-map-2014-to-2020

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at:

Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
1 Victoria Street
Llundain SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 5000

Os bydd arnoch angen y cyhoeddiad hwn ar fformat arall, anfonwch e-bost at enquiries@bis.gsi.gov.uk, neu ffoniwch 020 7215 5000.

**BIS/13/961W**